Y BOBL YN ERBYN PLASTIG

# DATGELU LLYGRWYR PENNAF Y DU

Archwiliad Brand 2025

SURFERS AGAINST SEWAGE



# CYNNWYS YR ADRODDIAD

1. TROSOLWG O'R ADRODDIAD T. 4 - 6

2. DATGELU LLYGRWYR PENNAF Y DU T. 8

3. SYSTEM FUDR T. 10 - 16

4. BRANDIAU SY'N TANSEILIO POLISI A DEDDFWRIAETH T. 18 - 24

5. AMSER I BARHAU I WNEUD ELW T. 26

6. Y DARLUN MAWR T. 28 - 35

7. BETH SYDD ANGEN EI NEWID? T. 35 - 39

8. ATODIADAU T. 42 - 44

# CRYNODEB GWEITHREDOL

**Wedi'i bweru gan ddata gwyddoniaeth dinasyddion wedi'i gasglu gan gymunedau a gwirfoddolwyr ledled y DU, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth ddiymwad o'n set ddata fwyaf eto i ddatgelu gwir raddfa llygredd ledled y wlad.**

Mae'r data'n dangos mai plastig yw'r math mwyaf amlwg o lygredd yn y DU o hyd, ni waeth ble rydych chi yn y DU - ac yn hynny, mae llawer iawn yn deillio o ddeunydd pacio untro.

Rydyn ni'n datgelu 'Dwsin Drwg' 2025 - y 12 brand adnabyddus mwyaf blaenllaw sy'n llygru, ynghyd â'u rhiant-gwmnïau rhyngwladol - sy'n sbarduno argyfwng y DU o ran llygredd deunydd pacio untro. Y tro hwn, rydym yn treiddio'n ddyfnach fyth i'r problemau systemig y mae'r DU yn eu hwynebu gyda llygredd plastig a phecynwaith, a datgelu pam nad oes cymaint o gynnydd wedi'i wneud - er gwaethaf degawdau o addewidion a mandad cyhoeddus cryf dros newid.

Canfu ein hymchwiliadau nad yw'r Dwsin Drwg wedi gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â llygredd plastig a deunydd pecynnu. Yn hytrach, buont yn gweithio'n ddiflino i ddiogelu eu helw drwy gelwyddau gwyrddgalchu, rhoi'r gorau i dargedau, a disodli deddfwriaeth y mae dirfawr angen amdani, a gynlluniwyd i fynd i'r afael â'u llygredd hwy, **A HYNNY TRA'N PARHAU I FWYDO CYFRADDAU CYNHYRCHU PLASTIG SY'N CYNYDDU AR RADDFA ANFERTHOL**. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth y DU wedi eu gadael yn rhydd i lygru heb oblygiadau.

Mae ein data yn datgelu'r effaith bosibl y mae oedi mewn polisi, sy'n cael ei wthio'n bennaf gan y llygrwyr mwyaf, wedi'i chael ar gyfraddau llygredd plastig yn y DU a'r effaith ddinistriol ar y môr, bywyd gwyllt a chymunedau o ganlyniad.

Er gwaethaf degawd o addewidion a thargedau hunan-benodedig i fynd i'r afael â'r mater, mae ein data yn gwbl glir: Nid yw brandiau sy'n llygru wedi gwneud nemor ddim i gymryd camau go iawn i dorri ar gynhyrchu plastig neu newid i fodelau newydd cylchol o ailddefnyddio. Nid yw gweithredu gwirfoddol i fynd i'r afael â'r argyfwng llygredd plastig yn gweithio. Mae angen i lywodraeth y DU gamu i'r adwy a gweithredu nawr.

**Am beth rydyn ni'n galw:**

- TARGEDAU CYFREITHIOL RWYMOL I DORRI AR GYNHYRCHU PLASTIGAU
- CREU ECONOMI GYLCHOL SY'N ARWAIN Y BYD
- MYND I'R AFAEL Â'R PLASTIGAU UNTRO SY'N LLYGRU WAETHAF
- GWAHARDDIAD AR GEMEGAU GWENWYNIG





# SET DDATA LANHAU FWYAF SAS HYD YMA!

**MAE 158,706 O BOBL**
Wedi cymryd rhan yn rhaglen Glanhau Miliwn o Filltiroedd **GLANHAU MILIWN O FILLTIROEDD** SAS yn ystod 2025.

Casglwyd **72,594KG ANHYGOEL O LYGREDD**

Mae'r archwiliad hwn yn adrodd ar y data a gyflwynwyd o **2,549** o ymgyrchoedd **GLANHAU TRAETHAU, AFONYDD, PARCIAU, MYNYDDOEDD A STRYDOEDD.**

**CASGLWYD, CYFRIFWYD A DOSBARTHWYD DROS 1000,000 O EITEMAU A OEDD YN LLYGRU**

**DIM OND 12 BRAND** cartref oedd yn gyfrifol am **DROS HANNER** yr holl becynwaith brand a ganfuwyd.

**RYDYN NI'N EU GALW NHW'N... 'Y DWSIN DRWG'**

Mae'r brandiau hyn yn cyfrif am **17,331 DARN O LYGREDD PECYNWAITH** gyda'i gilydd.

**GELLID BOD WEDI ATAL** bron i hanner yr holl lygredd a gasglwyd yn 2025, pe bai polisïau DRS a pEPR wedi bod ar waith.

Mae'r Dwsin Drwg wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddisodli neu ohirio'r ymyriadau polisi a fyddai wedi mynd i'r afael â'r eitemau sy'n llygru fwyaf.

Ar draws y Dwsin Drwg, mae targedau hunan-benodedig wedi cael eu methu, eu gohirio, eu gwanhau neu wedi cael eu gollwng yn gyfan gwbl.

**STYMPIAU SIGARENNAU, PACEDI CREISION A MELYSION A DARNAU PLASTIG** oedd y 3 eitem fwyaf cyffredin a ganfuwyd, sef 31% o'r eitemau a oedd yn llygru.

**PLASTIG OEDD Y MATH MWYAF CYFFREDIN O LYGREDD A GANFUWYD LEDLED Y DU GYFAN.**

**ROEDD PECYNWAITH PLASTIG UNTRO YN CYFRIF AM 50% O'R HOLL BLASTIGAU A GOFNODWYD,** sy'n gynnydd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

PŴER POBL

Y GRONFA DYSTIOLAETH

# YR ARCHWILIAD BRAND

## BETH YDYW?

**Archwiliad Brand Surfers Against Sewage (SAS) yw allbwn ein rhaglen Glanhau Miliwn o Filltiroedd. Gwirfoddolwyr SAS sy'n pweru'r fenter gwyddoniaeth dinasyddion anhygoel hon. Maen nhw'n casglu, yn cofnodi ac yn adrodd am y llygredd brand maen nhw'n ei ddatgelu yn ystod yr ymgyrch Glanhau Miliwn o Filltiroedd.**

Yn ystod 2025, cyflwynodd 6,818 o wirfoddolwyr y data o'u hymgyrch Glanhau Miliwm o Filltiroedd. Gyda'n gilydd, rydym yn defnyddio'r data hwn fel tystiolaeth i daflu goleuni ar raddfa llygredd yn y DU, datgelu'r llygrwyr mwyaf, a'u dal i gyfrif. Y tro hwn, rydym yn datgelu'r brandiau a'u rhiant-gwmnïau sy'n gyfrifol am y don o ddeunydd pacio plastig untro sy'n llygru'r DU.

### Data Brand ac Eitemau

Mae'r adroddiad canlynol yn dadansoddi'r data ar eitemau sy'n llygru a data lefel brand y mae gwirfoddolwyr wedi'u hadrodd. Hyd yma, mae data gwyddoniaeth dinasyddion eisoes wedi bod yn allweddol wrth lunio polisi, llywio deddfwriaeth, a dal llygrwyr i gyfrif. Yn y DU, mae Surfers Against Sewage yn parhau i fod yn un o'r ychydig sefydliadau sy'n cyhoeddi data ar lefel eitem a brand yn gyson.

### Set ddata glanhau'r amgylchedd gwyddoniaeth dinasyddion fwyaf y DU eto

Gyda gwirfoddolwyr SAS yn glanhau miloedd o leoliadau ledled y DU ac yn cofnodi data ar bron bob un diwrnod o'r flwyddyn, y canlyniad yw cofnod blynyddol mwyaf y DU o ddata glanhau gwyddoniaeth dinasyddion - gan ddarparu'r ciplun mwyaf cywir o'r llygredd rydyn ni'n ei wynebu heddiw.

*Ni chafodd data Trash Mob ei gynnwys yn y dadansoddiad data ar gyfer eleni.




**ROEDD HANNER YR HOLL EITEMAU PLASTIG A GOFNODWYD YN BLASTIG UNTRO.**

TRASH MOB

Mae data sy'n cael ei gasglu ar dir ysgolion drwy 'Trash Mobs' yn dangos tuedd debyg i weddill y DU, gan ddangos ymhellach fod llygredd yn symptom o orgynhyrchu systemig pecynwaith plastig untro, sy'n cael ei wthio ar ddefnyddwyr heb fawr ddim dewisiadau eraill ar gael, os o gwbl.

**Ar draws 26 o ysgolion, daeth gwirfoddolwyr o hyd i...**

**185** DAR O BLASTIG

**312** PECYN CREISION A MELYSION

**90** POTEL BLASTIG

## YR HYN A GANFUOM

### Llygredd Plastig yn Bla yn y DU

Dros y blynyddoedd diwethaf, plastig yw'r llygredd mwyaf cyffredin a gofnodwyd o hyd, a welwyd mewn dros 85% o sesiynau glanhau yn 2025. Mae llawer o hyn yn becynwaith plastig untro sydd, o'r holl eitemau sy'n llygru a gofnodwyd, yn cyfrif am gyfanswm o 50% o'r llygredd a ganfuwyd.

Mae maint y llygredd hwn a briodolir i becynwaith untro yn adlewyrchu cyflwr presennol y DU yn uniongyrchol; rydym yn prysur ddod yn un o'r defnyddwyr plastig mwyaf yn y byd, gydag aelwydydd yn y DU yn taflu tua 1.7 biliwn o eitemau o becynwaith plastig bob wythnos[1]. Nid oes rheolaeth dros y defnydd o blastig na'r diwylliant taflu-i-ffwrdd. Mae'r argyfwng yn cael ei sbarduno nid gan ddefnyddwyr, ond gan y diwydiant tanwydd ffosil sy'n ehangu cynhyrchiant plastig i gadw'n fyw eu model busnes sy'n chwalu.

Yn syml, tanwydd ffosil mewn cuddwisg yw plastig - mae dros 99% o blastig wedi'i wneud o olew a nwy[2]. Wrth i lywodraethau ddechrau mynd i'r afael ag allyriadau carbon, daeth Olew Mawr a Phlastig Mawr at ei gilydd i sicrhau eu dyfodol. **MAEN NHW WEDI ARLLWYS BILIYNAU I MEWN I ORSAFOEDD PETROCEMEGOL NEWYDD** ac wedi gwthio'r cynnydd mewn cynhyrchiant plastig. Bellach yn un o'r defnyddiau tanwyddau ffosil sy'n tyfu gyflymaf, mae cynhyrchu plastig yn debygol o oddiweddyd glo fel y sbardun mwyaf i'r galw am olew erbyn 2030[3].

Mae brandiau defnyddwyr mawr wedi dod yn wyneb cyhoeddus i'r ehangu mawr ar blastigau, gan gynhyrchu pecynwaith plastig untro diddiwedd. Mae'r cwmnïau hyn nid yn unig yn elwa ar draul iechyd y blaned ac iechyd pobl, ond maen nhw'n cyfrannu at y llif cynyddol o lygredd plastig ledled y DU. Mae'n bryd datgelu pa frandiau sydd fwyaf cyfrifol a'u dal i gyfrif.

DATGELU LLYGRWYR PENNAF Y DU

# DATGELU DWSIN DRWG DATGUDDIWYD




Roedd Dwsin Drwg 2025 yn gyfrifol am dros HANNER (52%) y llygredd brand a ganfuwyd yn, gan gyfrif am **17,331 DARN O LYGREDD** gyda'i gilydd.

Mae bron pob un o Ddwsin Drwg 2025 yn llygrwyr plastig enfawr, sy'n cynhyrchu poteli plastig a phlastig lapio bwyd. Dim ond #4 Red Bull, #6 Monster a #9 Stella Artois sydd yn cynhyrchu caniau diod alwminiwm untro yn bennaf, ac mae modd eu leinio â phlastig a chemegau o hyd.

Mae McDonalds hefyd yn gwerthu cynnyrch mewn pecynwaith deunyddiau cymysg, gan gynnwys plastig. Er gwaethaf yr amrywiadau bach mewn deunyddiau, nid yw'r llygredd hwn i fod yn yr amgylchedd, gan fygwth iechyd ecosystemau.

**DYCHWELYD I'R TRAMGWYDDWR**
Sganiwch y cod QR i weithredu yn erbyn brandiau mwyaf y DU sy'n llygru:





# DRINGO'R GADWYN BŴER:

## PWY YW'R RHIANT-GWMNÏAU SY'N LLYGRU?

**Er bod rhai o frandiau Dwsin Drwg yn gweithredu yn unol â'u rheolau eu hunain, mae'r rhan fwyaf yn eiddo i lond llaw o gorfforaethau byd-eang pwerus.**

Mae'r 'rhiant gwmnïau' hyn yn gweithredu'n rhyngwladol, a gyda dylanwad byd-eang anghymesur, sy'n amlygu gwreiddiau systemig y broblem - yn ogystal â'r angen am weithredu byd-eang cydlynol (yn ogystal â deddfwriaeth ddomestig yn y DU) os ydym am ddatrys yr argyfwng llygredd plastig go iawn.

**Yr un cwmnïau, yr un llygredd.**
Nid yw'n syndod mai'r un rhai sy'n gyfrifol unwaith eto. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, rydyn ni'n gweld yr un llygredd brand yn gorlethu'r DU. Nid dyma'r tro cyntaf i'r brandiau a'r rhiant gwmnïau hyn gael eu hamlygu am lygru ein hamgylchedd. Felly, pam eu bod yn dal ar y brig ar gyfer llygredd yn y DU?

**ER BOD 716 O WAHANOL FRANDIAU WEDI'U NODI, DIM OND 12 RHIANT-GWMNI OEDD YN GYFRIFOL AM 65% O'R HOLL EITEMAU BRAND A GANFUWYD.**

1. THE Coca-Cola COMPANY (5 YEARS AT THE TOP)
   **5,414 eitem**
   Mae brandiau'n cynnwys: **Costa, Fanta, Sprite, Monster, Coca-Cola**
2. PEPSICO (FOREVER CHASING FIRST POSITION)
   **2,628 eitem**
   Mae brandiau'n cynnwys: **Pepsi, Walkers, Rockstar, Doritos**
3. **McDonald's**
   **2,613 eitem**
   Dim ond am un brand mae McDonald's Corporation yn gyfrifol amdano, ond roedd gwirfoddolwyr yn dal wedi canfod digon o lygredd iddo fod yn drydydd.
4. Mondelēz International | **2,586 eitem**
   Mae brandiau'n cynnwys: **Cadbury, Maynards Bassets, Oreo**
5. Red Bull GmbH | **1,899 eitem**
6. Anheuser-Busch InBev | **1,614 eitem**
   Mae brandiau'n cynnwys: **Stella Artois, Budweiser**
7. Heineken N.V. | **1,012 eitem**
   Mae brandiau'n cynnwys: **Heineken, Fosters, Amstel**
8. Mars Incorporated | **925 eitem**
   Mae brandiau'n cynnwys: **Mars, Galaxy, M&Ms**
9. Tesco PLC | **856 eitem**
10. Suntory Holdings | **855 eitem**
    Mae brandiau'n cynnwys: **Lucozade**
11. Haribo GmbH & Co. KG | **768 eitem**
12. AG Barr plc | **625 eitem**
    Mae brandiau'n cynnwys: **Irn Bru, Boost, Rubicon**

SYSTEM FUDR

# METHU TARGEDAU, OEDI GYDA PHOLISI, TRICIAU BUDR

**Dros y degawd diwethaf, mae llawer o frandiau, rhiant-gwmnïau ac archfarchnadoedd sy'n llygru wedi cydnabod yn gyhoeddus bryderon amgylcheddol cynyddol ynghylch eu hôl troed plastig a charbon, gyda llawer o enwau adnabyddus yn gwneud 'cynaliadwyedd' yn rhan greiddiol o'u strategaeth farchnata.**

Fel rhan o'r dull gwyrddgalchu hwn, mae llawer wedi ymateb i ofynion defnyddwyr am arferion cynaliadwy drwy osod targedau lleihau plastig, ailddefnyddio a chynnwys wedi'i ailgylchu. Mae gosod targedau gwirfoddol yn ddull gweithredu sydd wedi cael ei yrru ar raddfa fyd-eang drwy greu rhaglenni pwerus fel yr **'Ymrwymiad Byd-eang'**, cytundeb a lansiwyd yn 2018 gan Sefydliad Ellen MacArthur (EMF) a Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig, gyda'r nod o fynd i'r afael â gwastraff plastig a hyrwyddo economi gylchol.

Mae dros 1,200 o sefydliadau bellach wedi cofrestru, gan gynnwys The Coca-Cola Company, PepsiCo, Nestlé a Mars Incorporated, ac maent yn adrodd yn rheolaidd ar eu data i EMF fel y gellir monitro cynnydd ar draws y sector yn effeithiol. Mae llawer o'r Dwsin Drwg neu eu rhiant-gwmnïau yn llofnodwyr.

Yn olaf, roedd cael nodau pendant gyda metrigau ar waith yn brawf effeithiol o ran a fyddai brandiau a chwmnïau'n cyflawni ar eu pen eu hunain heb reoleiddio priodol... Y canlyniadau?

**NI ALL LLYGRWYR REOLEIDDIO EU HUNAIN.**

**MAE EIN DATA A'N HYMCHWILIADAU'N DANGOS MAI DIM OND GWYRDDGALCHU PUR OEDD YR HOLL YMDRECH HON, O FARCHNATA GWERTH MILIYNAU LAWER O BUNNOEDD I YMRWYMIADAU A THARGEDAU BEIDDGAR.**

Buom yn ymchwilio i'r hyn y mae'r brandiau mwyaf llygredig wedi bod yn ei wneud mewn gwirionedd dros y degawd diwethaf. Er gwybodaeth, **NID OEDD YN DDYLUNIAD CYNNYRCH ARLOESOL NAC YN DRAWSNEWID I ECONOMI GYLCHOL**. Y gwir amdani yw bod brandiau wedi torri addewidion, wedi methu eu targedau, a hyd yn oed wedi mynd mor bell ag oedi deddfwriaeth hanfodol - hyn i gyd tra'n sugno'r elw a llygru'r amgylchedd gyda phecynwaith untro diddiwedd.

## DWSIN O GELWYDDAU BUDR...

**Nid oedd yr un brand Dwsin Drwg wedi cyrraedd eu holl dargedau ar gyfer 2025 i fynd i'r afael â llygredd plastig - ac yn waeth na hynny, cafodd llawer o dargedau eu gollwng yn gyfan gwbl, neu eu hanwybyddu.**

Gan nad oes neb wir yn dal y brandiau hyn i gyfrif, nid yw eu haddewidion, eu hymrwymiadau a thargedau 2025 wedi bod yn ddim mwy na geiriau gwag ar dudalen.





Coca-Cola

**Mae Coca-Cola wedi bod yn arbennig o lafar wrth osod ymrwymiadau uchelgeisiol. Ac maen nhw hefyd wedi arwain y ffordd o ran gwyrddgalchu defnyddwyr, symud y bai a llygru'r amgylchedd - gan ddod yn llygrwr #1 AM Y BUMED FLWYDDYN YN OLYNOL.**

O wneud **HONIADAU CAMARWEINIOL** a cheisio ailddiffinio terminoleg 'Defnydd Untro'[4], i ymddangos yn rymus yn y Cytuniad Plastig Byd-eang, mae Coca-Cola wedi bod yn brysur iawn yn dweud celwyddau Budr. Gadewch i ni eu datgelu:

SAFLE UCHAF Y DWSIN DRWG ERS 2019

WEDI'I GANFOD MEWN 1 O BOB 2 SESIWN LANHAU

3,239 O EITEMAU WEDI'U GLANHAU

**YR HYN A DDYWEDON NHW...**

Yn 2020, addawodd Coca-Cola **LEIHAU EI DDEFNYDD O BLASTIGAU CRAI, GAN ADDO DILEU 3.3 MILIWN TUNNELL O'R DEUNYDD** "sy'n deillio o ffynonellau anadnewyddadwy" o'i gadwyn gyflenwi erbyn 2025.[5]

→ **BETH WNAETHON NHW...**

**YN HYTRACH, ROEDDENT WEDI CYNYDDU'R DEFNYDD O BLASTIG CRAI 10%** (rhwng 2019 a 2024), gan arwain at gynhyrchu 3,606,000 tunnell fetrig o becynwaith plastig yn 2024 yn unig [2025].[6] Ac yn 2025 yn unig, daethpwyd o hyd i **3,239 O EITEMAU COCA-COLA A OEDD YN LLYGRU.**

**YR HYN A DDYWEDON NHW...**

Yn 2022, addawodd Coca-Cola y byddai **25% O'I BECYNWAITH YN GALLU CAEL EI AILDDEFNYDDIO** erbyn 2030.[5]

→ **BETH WNAETHON NHW...**

Nod i'w edmygu - **OND YN ANFFODUS, GOLLYNGWYD Y TARGED HWN.** Roedd pecynwaith amldro yn 1.1% cywilyddus yn 2024 - (gostyngiad o 3% ers 2018).[6]

**YR HYN A DDYWEDON NHW...**

Yn 2024, 'esblygodd' Coca-Cola eu nodau amgylcheddol gwirfoddol:

"Erbyn 2035, ceisio defnyddio **35% I 40% O DDEUNYDD WEDI'I AILGYLCHU MEWN PECYNWAITH SYLFAENOL** (plastig, gwydr ac alwminiwm), gan gynnwys **CYNYDDU'R DEFNYDD O BLASTIG WEDI'I AILGYLCHU I 30% I 35% YN FYD-EANG."**

→ **BETH WNAETHON NHW...**

Yn 2024, fe wnaethon nhw wanhau a hyd yn oed ollwng rhai o'u targedau'n llwyr.[7]

Hyd yn oed ar ôl ymestyn eu hamserlen a glastwreiddio eu targed yn sylweddol, **NID OEDDENT WEDI CYRRAEDD EU TARGED O HYD**, gyda chynnwys ôl-ddefnydd wedi'i ailgylchu yn ddim ond 18% yn 2024.[6]

McDonald's

**Agwedd McDonald's at becynwaith cynaliadwy yw newid o blastig untro i ddeunyddiau eraill fel pecynwaith organig (e.e. papur a ffeibr wedi'i fowldio).**

Pan fyddant yn defnyddio plastig, eu nod yw iddo fod o ddeunydd wedi'i ailgylchu. Er eu bod wedi treialu cynlluniau ailddefnyddio mewn gwledydd eraill fel Ffrainc, mae hyn wedi bod ar raddfa fach ac nid yw wedi cael ei gyflwyno yn ehangach eto.

Y realiti yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw bod McDonald's wedi bod yn lobïo'n ymosodol yn erbyn cyfreithiau sydd wedi'u cynllunio i leihau gwastraff pecynwaith drwy ailddefnyddio, gan arwain yr hyn a ddisgrifiwyd fel yr ymdrech lobïo fwyaf a welwyd erioed yn Senedd Ewrop. Gan ddefnyddio astudiaethau y gellir eu cwestiynu'n wyddonol, sy'n ariannu eu hunain ac yn hyrwyddo tystiolaeth ddethol, maent yn brwydro'n filain yn erbyn deddfwriaeth sydd â'r potensial i leihau llygredd pecynwaith ac allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sylweddol[9].

WEDI'I GANFOD MEWN 1 O BOB 5 SESIWN LANHAU

2,613 O EITEMAU WEDI'U GLANHAU

UN O'R DWSIN DRWG ERS 2019

### YR HYN A DDYWEDON NHW...

Erbyn 2024, **BYDD 100% O'R PECYNWAITH WEDI'I WNEUD O FFYNONELLAU ADNEWYDDADWY, WEDI'U HAILGYLCHU NEU ARDYSTIEDIG** a bydd **MODD EI AILGYLCHU NEU EI GOMPOSTIO'N LLAWN**[10].

### BETH WNAETHON NHW...

**ADDAWYD 100%. CYFLAWNWYD 90.9%.**

Yn 2024, dywedodd McDonald's fod 90.93% o'r pecynwaith wedi cyrraedd y targed hwn. Mae'r ffigur yn cael ei wanhau ymhellach gan ddiffiniadau eang o ddeunyddiau "ardystiedig", sy'n gallu cynnwys pecynwaith sydd â dim ond 70% o gynnwys ardystiedig, ac weithiau hyd yn oed deunydd o ffynonellau llai cynaliadwy.

### YR HYN A DDYWEDON NHW...

**LLEIHAU CYFANSWM Y DEUNYDD PECYNWAITH SY'N CAEL EI DDEFNYDDIO MEWN ARDALOEDD CWSMERIAID A CHEGINAU 20%** erbyn 2030, o'i gymharu â lefelau 2023.

### BETH WNAETHON NHW...

**DIM DATA, DIM CYNNYDD.**

Nid yw McDonald's wedi datgelu data sy'n dangos cynnydd yn erbyn y targed hwn. Er ei fod wedi newid caeadau diodydd poeth plastig am gyfnod byr i ffeibr wedi'i fowldio, rhywbeth dros dro oedd y newid - **MAE CAEADAU PLASTIG BELLACH YN CAEL EU DEFNYDDIO UNWAITH ETO.**

### YR HYN A DDYWEDON NHW...

Mae McDonald's wedi dweud **Y BYDD HOLL WASTRAFF BWYTAI'N CAEL EI AILGYLCHU, EI AILDDEFNYDDIO NEU EI GOMPOSTIO**, erbyn 2027, fel na fydd dim yn cael ei anfon i wastraff. Mae'r cwmni'n dweud ei fod yn gweithio tuag at system gylchol lle mae deunyddiau'n cael eu cadw mewn defnydd yn hytrach na'u taflu.

### BETH WNAETHON NHW...

**MAENT WRTHI'N LOBÏO YN ERBYN PECYNWAITH AILDDEFNYDDIADWY.**[13,9]

Er gwaethaf siarad am "gau'r ddolen", McDonald's yw un o'r prif leisiau sy'n lobïo yn erbyn polisïau pecynwaith y gellir eu hailddefnyddio. Mae'r cwmni'n dadlau y byddai ailddefnyddio yn gwanhau ei fentrau cynaliadwyedd, ac mae ymgyrchwyr ac academyddion yn dweud y byddai angen buddsoddiad mawr, newidiadau mewn seilwaith a symud oddi wrth y model untro proffidiol presennol.[9]





Cadbury

**Nid yw Cadbury wedi gosod unrhyw dargedau na mesuriadau penodol; mae eu rhiant-gwmni Mondelez International yn gwneud hynny. Yr unig newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn Cadbury yw newidiadau diweddar sydd â ffocws cul iawn - er enghraifft, dewis 80% o blastig wedi'i ailgylchu ardystiedig gan ISCC yn eu bariau 150g a mwy yn unig[14].**

Mae dull tair rhan Mondelēz o ymdrin â phecynwaith cynaliadwy yn cynnwys lleihau ac ysgafnu ei ddeunyddiau; dylunio ei becynwaith i'w ailgylchu, peidio â chyfeirio at ddeunyddiau 'problematig' a rhoi deunydd ailgylchu plastig ar waith; a chefnogi'r broses o bontio i gynlluniau pEPR a pholisïau 'effeithiol' eraill drwy weithio gyda llunwyr polisïau, buddsoddwyr a chwmnïau eraill[15].

UN O'R DWSIN DRWG ERS 2019

WEDI'I GANFOD MEWN 1 O BOB 3 GLANHAU

2,311 O EITEMAU WEDI'U GLANHAU

### YR HYN A DDYWEDON NHW...

Addewid o **OSTYNGIAD O 25% MEWN PLASTIG** ***caled*** crai a **GOSTYNGIAD O 5% MEWN PLASTIG CRAI** erbyn 2025 (o'i gymharu â 2020)[15].

### BETH WNAETHON NHW...

**YN HYTRACH, ROEDDENT WEDI CYNYDDU PLASTIG CRAI.**

O'i gymharu â llinell sylfaen 2020, cynyddodd y defnydd o, **blastig *caled* crai** yn 2023 a 2024.. Cynyddodd **PLASTIG CRAI** yn gyffredinol yn 2023, ac er eu bod wedi lleihau'r defnydd o blastig crai yn 2024, maen nhw'n DAL wedi methu eu targedau cyffredinol.

### YR HYN A DDYWEDON NHW...

Roeddent wedi addo defnyddio **5% O GYNNWYS PLASTIG WEDI'I AILGYLCHU** erbyn 2025[15].

### BETH WNAETHON NHW...

**MAEN NHW AR Y TRYWYDD IAWN I FETHU EU TARGED YN LLWYR.**

Yn 2024, roedd cynnwys ôl-ddefnydd wedi'i ailgylchu yn **1.6%**[16] - y unig - mae hynny'n ffordd bell i fynd, i gyrraedd eu targed mewn blwyddyn!

### YR HYN A DDYWEDON NHW...

Roeddent yn dweud y byddai **98% NEU FWY** o'u pecynwaith yn cael ei **"DDYLUNIO I FOD" YN AILGYLCHADWY** erbyn 2025[15].

### BETH WNAETHON NHW...

**NID YW'R "DYLUNIO I FOD YN AILGYLCHADWY" YR UN FATH AG AILGYLCHADWY.**

Mae Mondelez yn tracio pecynwaith "a ddyluniwyd i fod yn ailgylchadwy", nid pecynwaith sy'n wirioneddol ailgylchadwy. Yn 2024, roedd 96% yn bodloni'r metrig dylunio hwn, ond mewn gwirionedd, **DIM OND 18% ELLID EI AILGYLCHU, EI AILDDEFNYDDIO NEU EI GOMPOSTIO (RRC)** mewn gwirionedd, yn ôl data Sefydliad Ellen MacArthur.

# NID BRANDIAU YN UNIG: ARCHFARCHNADOEDD HEFYD

CANFUWYD 2,363 O EITEMAU ARCHFARCHNAD YN 2025

Archfarchnadoedd yw un o gynhyrchwyr mwyaf pecynwaith plastig untro. Ond mae'n aml yn cael ei ystyried yn 'wastraff cudd' oherwydd ei fod yn cael ei ddal yn bennaf mewn ffrydiau gwastraff cartrefi, ac ar ôl hynny mae'n pentyrru mewn safleoedd tirlenwi neu'n cael ei losgi - ac erbyn hynny mae allan o'r golwg, o'r ffordd. Fodd bynnag, mae rhywfaint o becynwaith yn dal i ollwng i'r amgylchedd fel llygredd - a dyna pam mae Archfarchnadoedd y DU wedi cyrraedd rhestr y Dwsin Drwg.

UN O'R DWSIN DRWG ERS 2019

723 O EITEMAU WEDI'U GLANHAU

**Fel archfarchnad fwyaf y DU[17], mae Tesco wedi cyrraedd y Dwsin Drwg bob blwyddyn ers i'n Harchwiliad Brand ddechrau.**

Felly, fe wnaethon ni ymchwilio i'r hyn maen nhw'n ei wneud (ddim yn ei wneud) i gymryd cyfrifoldeb a mynd i'r afael â'r argyfwng plastig...

TESCO

## YR HYN A DDYWEDON NHW...

Roeddent yn dweud y byddai 100% o'u pecynwaith yn **GWBL AILGYLCHADWY ERBYN RHAGFYR 2025**[18].

## BETH WNAETHON NHW...

**METHU EU HUNIG DARGED AR GYFER 2025.**

Dim ond 87% o'u pecynnau "brand eu hunain" y gellir eu hailgylchu ar garreg y drws yn y DU[19].

Er eu bod yn honni bod yr ystadegyn hwn yn nes at 99% gydag ailgylchu yn y siop, nid ydym yn ei dderbyn. Datgelodd ymchwiliad diweddar fod 70% o'r gwastraff plastig meddal (a ddychwelwyd gan gwsmeriaid drwy gynllun rhoi yn ôl i ailgylchu Tesco a Sainsbury's) wedi cael ei **LOSGI'N** waradwyddus, nid ei ailgylchu[20].

## YR HYN A DDYWEDON NHW...

Pan na allent gael gwared ar becynwaith plastig yn llwyr, eu nod yw **EI LEIHAU I'R LEFEL ISAF BOSIB**[18].

## BETH WNAETHON NHW...

**DIM FFIGURAU TARGED GWIRIONEDDOL. DIM TERFYN AMSER.**

Dyma'r agosaf y gallem ddod o hyd iddo at 'darged' gostwng - eang ac amwys.

Yn siomedig, nid oedd gan Tesco darged gostwng gwirioneddol â therfyn amser, na tharged Ailddefnyddio/Ail-lenwi, yn wahanol i rai o'u cymheiriaid cystadleuol eraill yn yr archfarchnad.

*Cyfanswm nifer yr eitemau a ganfuwyd yn ystod 2025 o Tesco, Asda, Lidl, Aldi, Sainsburys, Morrisons a Co-op




**MAE ARCHFARCHNADOEDD Y DU YN CYNHYRCHU TUA 29.8 BILIWN DARN O BECYNWAITH PLASTIG Y GELLIR EI OSGOI BOB BLWYDDYN[21].**

# METHIANT O BOB CYFEIRIAD

**CANLLAW I EICONAU**

- ⇆ Wedi torri'n ôl ar ymrwymiad
- ✗ Wedi methu â chyflawni
- ? Ble mae'r cynllun?
- ◔ Cyflawnwyd (gyda chafeatau)

| Ymrwymiad ➔ | Lleihau Plastig | Ailddefnyddio/ Ail-lenwi | Defnyddio Deunydd Eildro | Pecynwaith Ailgylchadwy | Cyfrifoldeb am Lygredd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhiant-gwmni ⬇** | *Mae'r sefydliadau hyn wedi llofnodi Ymrwymiad Byd-eang yr Economi Plastigau Newydd, dan arweiniad Sefydliad Ellen MacArthur ac yn adrodd ar fetrigau pecynwaith plastig.* | | | | |
| **The Coca-Cola Company** Maent wedi gwthio'n ôl a gollwng unrhyw dargedau blaengar yn 2024 - ac yn dal heb gyflawni unrhyw un o'u nodau. | ⇆ | ⇆ | ⇆ | ✗ | ⇆ |
| **Mondelēz International** (Rhiant-gwmni Cadbury) Efallai eu bod wedi lleihau plastig crai 5%, ond gyda 0% yn cael ei ailddefnyddio a dim ond 18% o becynwaith RRC, maent yn dal ymhell o wneud cynnydd ar y cyflymder sydd ei angen i fynd i'r afael â'r mater. | ◔ | ✗ | ✗ | ✗ | ? |
| **PepsiCo** (rhiant-gwmni Pepsi and Walkers) Mae PepsiCo wedi gollwng ac wedi gwanhau targedau mewn modd gwyrddgalchu pur. Roedd ansawdd a hygrededd eu dull gweithredu wedi cael sgôr 'gwael iawn' gan y Monitor Cyfrifoldeb Hinsawdd Corfforaethol 2025. | ◔ | ⇆ | ✗ | ✗ | ? |
| **ABinBev** (rhiant-gwmni Stella Artois) Llawer o nodau strategaeth gwych ond, gyda dim ond un targed sydd â therfyn amser, nid oes ganddynt unrhyw gynlluniau clir i sicrhau cynnydd gwirioneddol. Maent yn eiriau gwyrddgalchog ar bapur yn unig sy'n edrych yn dda i ddefnyddwyr. | ? | ? | ✗ | ? | ? |
| **Mars Incorporated** Mae Mars yn llawn addewidion, ond mae eu ffocws o hyd ar ailgylchadwyedd. Gyda chyfradd ailddefnyddio wastad o 0%, maen nhw'n llythrennol yn mynd yn ôl ar leihau plastigau crai, ac yn hytrach yn CYNYDDU'R defnydd ohonynt. | ⇆ | ✗ | ✗ | ✗ | ? |
| **Rhiant-gwmni ⬇** | *Mae'r cwmnïau hyn yn gweithredu neu'n berchen ar nifer o frandiau defnyddwyr, ond nid ydynt wedi ymrwymo i'r ymrwymiad byd-eang.* | | | | |
| **Suntory Holdings** (rhiant-gwmni Lucozade) Blaenoriaeth Suntory yw 'cyflymu cylcholdeb', ond nid yw eu hystyriaeth o gylcholdeb yn mynd y tu hwnt i ailgylchu. | ? | ? | ✗ | ✗ | ? |
| **McDonald's** Yn arwain y lobïo yn erbyn ailddefnyddio. Ychydig iawn o ddata i olrhain eu cynnydd - ond digon o honiadau a thactegau gwyrddgalchu! | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| **Brand* ⬇** | *Brandiau cynnyrch yw'r rhain yn hytrach na rhiant-gwmnïau corfforaethol.* | | | | |
| **Red Bull** Nid yw Red Bull yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb go iawn dros gael eu caniau i mewn i'r system ailgylchu na hyrwyddo economi gylchol. | ? | ? | ? | ? | ? |
| **Walkers** Dim targedau, dim uchelgais - Rhowch drefn ar bethau. | ? | ? | ? | ? | ? |
| **Monster** Nid oes gan Monster gynllun clir ynglŷn â beth i'w wneud ynglŷn â'r mater. Dylent fod yn eiriol dros systemau gwell i ail-gipio eu caniau a mynd i'r afael â thaflu sbwriel. | ? | ? | ? | ? | ? |
| **Haribo** Maent yn datgan nodau cyffredinol ond nid oes ganddynt unrhyw ddata na thargedau gwirioneddol i'w holrhain. Mae'n bryd iddyn nhw weithredu a chymryd rhywfaint o gyfrifoldeb. | ? | ? | ? | ? | ? |
| **Tesco** Dim ond un targed gwirioneddol wedi'i osod sy'n canolbwyntio ar fesurau ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi. Mae'n amlwg na fyddant yn bwrw iddi, oni bai fod Llywodraeth y DU yn eu gorfodi i wneud hynny. | ? | ? | ? | ✗ | ? |



**Roedd y canlyniadau'n fwy na syfrdanol, gan ddangos methiant ysgubol ar draws y Dwsin Drwg i fynd i'r afael â'r mater. Maen nhw wedi gwneud y nesaf peth i ddim o ran gweithredu.**

## Ailddefnyddio/Ail-lenwi

Er bod symud i fodelau ailddefnyddio yn gallu arwain at amcangyfrif o ostyngiad o 20% yng nghyfanswm y gollyngiadau plastig blynyddol i'r môr erbyn 204024, i'r rhan fwyaf o frandiau, nid yw ailddefnyddio hyd yn oed yn ystyriaeth. Ond, o'r pump a osododd Dargedau Ailddefnyddio, roedd y canlyniadau'n warthus:

- ➔ Y gyfradd ail-lenwi uchaf a gofnodwyd yn gyffredinol oedd 1.1% truenus, gan Coca-Cola, a oedd mewn gwirionedd yn ostyngiad o 3% o'u cyfradd yn 2018 - gan brofi bod cynnydd o ran Ailddefnyddio nid yn unig wedi arafu, ond ei fod yn mynd yn ôl.
- ➔ Cofnododd dau riant-gwmni (Mondelez a Mars) gyfraddau ailddefnyddio o 0% yn 2024.
- ➔ Gollyngodd dau riant-gwmni (Coca-Cola a PepsiCo) eu targedau'n gyfan gwbl.
- ➔ Yn waeth byth, mae McDonalds wedi bod yn lobïo'n ymosodol yn erbyn ailddefnyddio[13, 9] a pholisïau plastig yn y DU[25].

## Lleihau Plastig

O'r pump sydd mewn gwirionedd yn gosod Targedau Lleihau:

- ➔ Roedd dau riant-gwmni (Coca-Cola a Mars) wedi CYNYDDU'R defnydd o blastig crai yn 2024, yn hytrach na gweithio tuag at eu targedau.
- ➔ PepsiCo a Mondelez oedd yr unig gwmnïau a gyrhaeddodd eu targedau, gyda Mondelez yn cyflawni gostyngiad o 5% (o linell sylfaen 2020). Fodd bynnag, dim ond ar ôl gosod nod newydd, wedi'i lastwreiddio, y llwyddodd PepsiCo i gyrraedd ei darged. Ac mewn gwirionedd, cafodd PepsiCo GYNNYDD o 5.57% mewn defnydd plastig crai yn 2023 o'u llinell sylfaen yn 2020, gan ganslo unrhyw ostyngiadau a wnaed.
- ➔ Ac nid oes gan yr olaf, McDonalds, unrhyw ddata wedi'i adrodd ar gael i olrhain cynnydd (na diffyg cynnydd).

## Ailgylchu a Chynnwys wedi'i Ailgylchu

Ar gyfer bron pob brand a rhiant-gwmni, mae'r ffocws yn parhau i fod yn bennaf ar ailgylchadwyedd, hyd yn oed lle nad yw capasiti ailgylchu'n bodoli eto. Er mai dyma'r maes sydd â'r nifer fwyaf o reoliadau ac adroddiadau, mae llawer o dargedau wedi'u methu o hyd a metrigau dryslyd. Mewn arddull gwyrddgalchu go iawn, mae'n well gan frandiau olrhain 'dyluniwyd ar gyfer ailgylchu', yn hytrach na gwir ailgylchadwyedd pecynwaith, gan ganiatáu iddynt hawlio cynnydd tra'n anwybyddu a oes modd ailgylchu cynnyrch ai peidio.

Gyda seilwaith ailgylchu cyfyngedig ac anghyson yn y DU, mae hyn yn arwain at wahaniaethau enfawr rhwng metrigau. Un enghraifft yw plastigau hyblyg, lle mae llawer o frandiau wedi gwneud eu pecynwaith yn 'ailgylchadwy mewn archfarchnadoedd' ac wedi ymgyrchu am ailgylchu ar ymyl y ffordd (i'w lansio yn 2027). Ond yn anffodus, mae'r gallu i ailgylchu plastigau hyblyg yn y DU yn dal yn gyfyngedig iawn a, heb gyllid sylweddol, rhagwelir y bydd yn disgyn o dan y niferoedd enfawr sy'n cael eu cynhyrchu[26].

## Cymryd cyfrifoldeb am lygredd

Pan fyddwn yn ymchwilio i ba raddau y mae brandiau (ddim) yn cymryd cyfrifoldeb am eu pecynwaith, mae eu negeseuon yn aros fwy neu lai yr un fath. Mae brandiau'n awgrymu dro ar ôl tro y dylai'r ffocws fod ar ddefnyddwyr, sefydliadau'r trydydd sector, ac awdurdodau lleol i ddelio â'r mater25. Ychydig iawn o ystyriaeth a roddir i'r niwed a achosir gan ddeunyddiau a ddefnyddir neu eu pecynwaith pan fydd yn gollwng i'r amgylchedd. Mae'r rhan fwyaf yn dal i ystyried bod dim ond rhoi label 'ailgylchwch fi' ar eu pecynwaith yn ddigon.

Felly, er bod eu brandio, eu gwefannau a'u hysbysebion yn ymddangos fel petai'r cwmnïau hyn yn poeni am fynd i'r afael â'u problemau plastig a phecynwaith, mae'n bwysig peidio â chael ein twyllo. Ac ar ôl dadbacio'r addewidion a datgelu'r celwyddau, mae'n gwbl amlwg nad oes gan y Dwsin Drwg unrhyw uchelgais na pharodrwydd gwirioneddol i gymryd unrhyw gyfrifoldeb gwirioneddol i fynd i'r afael â'r mater. **RHAID EU DAL I GYFRIF..**

# BRANDIAU SY'N TANSEILIO POLISI A DEDDFWRIAETH

# DRS & EPR

## BETH YDYN NHW...

**CYNLLUNIAU DYCHWELYD ERNES (DRS)** a **CHYFRIFOLDEB ESTYNEDIG CYNHYRCHWYR (EPR)**, gan weithio gyda'i gilydd, yw'r atebion sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â llygredd drwy leihau gwastraff pecynwaith untro, gwella cyfraddau ailgylchu, ac atal sbwriel rhag gollwng i'r amgylchedd. Dydyn nhw ddim yn syniadau radical, maen nhw wedi cael eu profi, maen nhw'n arfau ymarferol sydd eisoes yn gweithio ar draws Ewrop.

## ...A PHAM EU BOD NHW'N BWYSIG?

**Gyda holl frandiau Dwsin Drwg 2025 yn gynhyrchwyr pecynwaith bwyd a diod, dylai'r rhan fwyaf o'u cynnyrch gael eu cwmpasu naill ai gan DRS neu fath o EPR pecynwaith, a elwir yn pEPR.**

Mae chwech o'r deuddeg brand yn gwmnïau diodydd yn bennaf, sy'n cynhyrchu poteli plastig, caniau alwminiwm a photeli gwydr, sy'n golygu y gellid bod wedi atal hyd at tua 50% o lygredd Dwsin Drwg rhag mynd i mewn i'r amgylchedd pe bai DRS hollgynhwysol (sy'n cynnwys gwydr) ar waith, yn hytrach na chael ei ohirio'n gyson.

> **"Mae ein harchwiliadau brand yn datgelu gwirionedd brawychus: mae gormod o boteli a chaniau'n parhau i lygru ein hamgylchedd pan ellid eu hailgylchu'n hawdd. Mae'n arwydd clir bod angen Cynllun Dychwelyd Ernes arnom ar frys i symud tuag at ddyfodol diwastraff go iawn."**
>
> Peter Hoyland - Arweinydd Cymunedol Plastic Free Exmoor.

Allwn ni ddim aros rhagor. Bydd llygredd yn parhau i lifo i'r amgylchedd nes bydd DRS yn mynd yn fyw. Felly, pam y mae wedi cymryd cyhyd i'r DU weithredu'r polisïau hyn? Oherwydd bod brandiau sy'n llygru wedi treulio blynyddoedd yn lobïo am oedi - ac mae llywodraeth y DU wedi gwrando.



### BETH YW'R CYNLLUN DYCHWELYD ERNES?

**SYSTEM LLE RYDYCH CHI'N TALU BLAENDAL BACH PAN FYDDWCH CHI'N PRYNU DIOD MEWN POTEL BLASTIG NEU GAN FETEL, AC YN CAEL YR ARIAN HWNNW'N ÔL PAN FYDDWCH CHI'N DYCHWELYD Y CYNHWYSYDD GWAG.**

Yn gryno, mae DRS yn annog pobl i ddychwelyd poteli a chaniau fel eu bod yn cael eu hailgylchu yn hytrach na'u taflu.

**Mae wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â...**

- THAFLU SBWRIEL AR FFURF POTELI A CHANIAU
- CYFRADDAU AILGYLCHU ISEL AR GYFER CYNWYSYDDION DIODYDD UNTRO
- GWASTRAFF O DDEFNYDDIO 'WRTH FYND'




### BETH YW CYFRIFOLDEB ESTYNEDIG CYNHYRCHWYR?

**POLISI SY'N GWNEUD CYNHYRCHWYR (BRANDIAU A GWNEUTHURWYR) YN GYFRIFOL AM GOST LAWN RHEOLI EU GWASTRAFF PECYNWAITH.**

Yn gryno, mae EPR yn gwthio cwmnïau i ddefnyddio llai o becynwaith, gwella dyluniad cynnyrch, a gwneud pecynwaith yn haws ei ailgylchu.

**Mae wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â...**

- PECYNWAITH UNTRO GORMODOL
- PECYNWAITH ANODD EU HAILGYLCHU
- BAICH Y GOST AR DRETHDALWYR AC AWDURDODAU LLEOL

# LOBÏO PWERUS

**Er mwyn cynnal y status quo a diogelu eu helw, mae'r Dwsin Drwg wedi dibynnu ar ddwy strategaeth gyfochrog. Yn gyhoeddus, maen nhw wedi defnyddio naratifau gwyrddgalchu wedi'u mireinio sy'n hyrwyddo atebion ailgylchu. Yn y cyfamser, yn breifat, maent wedi cymryd rhan mewn lobïo i flocio, oedi a gwanhau'r polisïau a fyddai fel arall yn llwyddo i leihau llygredd plastig.**

Mae lobïo yn rhan ddilys o ddemocratiaeth y DU, ond mae diffyg tryloywder a bylchau rheoleiddiol yn caniatáu i sectorau pwerus ddylanwadu'n anghymesur. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae brandiau sy'n cynhyrchu pecynwaith plastig wedi dod yn lobïwyr arbennig o weithgar. A chanfuwyd bod Dwsin Drwg 2025 yn lobïo'n breifat yn erbyn polisïau maen nhw'n honni eu bod yn eu cefnogi'n gyhoeddus, gan fynd yn groes i'w hymrwymiadau cynaliadwyedd yn uniongyrchol ac amlygu eu rhagrith eu hunain.

Yn hytrach na gweithredu ar eu pennau eu hunain, mae brandiau'n aml yn gweithio drwy grwpiau sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid (e.e. cymdeithasau masnach, cynghreiriau'r diwydiant a mentrau cydweithio). Er ei bod yn ymddangos ar yr wyneb bod y grwpiau hyn yn cydweithio i fynd i'r afael â llygredd plastig a phecynwaith ar draws y sector, gallant hefyd gymylu'r gwirionedd - gan alluogi brandiau i gyfuno dylanwad ar yr un pryd â chynnal eu delwedd gyhoeddus 'gwyrdd'.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Dwsin Drwg - drwy wahanol gymdeithasau - wedi lobïo dro ar ôl tro **YN ERBYN** rheoliadau plastig cryfach, gan gynnwys Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (pEPR), Cynlluniau Dychwelyd Ernes (DRS), trethi plastig a mandadau ailddefnyddio yn benodol. Y canlyniad fu blynyddoedd o gynnydd araf ac uchelgais wedi'i lastwreiddio. A llygredd cynyddol.

Mae'r tabl cymdeithasau isod yn dangos pa frandiau sy'n gysylltiedig â gwahanol grwpiau rhanddeiliaid lluosog.

## YN YSTOD Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF, MAE'R DWSIN DRWG - DRWY WAHANOL GYMDEITHASAU - WEDI LOBÏO DRO AR ÔL TRO YN ERBYN RHEOLIADAU PLASTIG CRYFACH, EPR, DRS, TRETHI PLASTIG A MANDADAU AILDDEFNYDDIO YN BENODOL.

| Grŵp ⬇ | Brand* ➡ | Coca-Cola | McDonald's | Cadbury | Red Bull | Walkers | Lucozade | Pepsi | Stella Artois | Haribo | Tesco | Mars |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A Circular Economy for flexible packaging (CEFLEX)** Yn weithredol wrth siapio dadleuon polisi. Yn cefnogi ehangu'r system ailgylchu yn hytrach na gwaharddiadau ar leihau deunyddiau. | | | | ✕ | | | | ✕ | | | | ✕ |
| **Consortiwm Manwerthu Prydain** Yn chwarae rôl lobïo frwd yn y DU. | | | ✕ | | | | | | | | ✕ | |
| **British Soft Drinks Association (BSDA)** Rôl lobïo glir yn y DU- wedi pwyso am newidiadau i ddyluniad DRS ac amserlenni gweithredu wedi'u gohirio. | | ✕ | | | ✕ | | ✕ | ✕ | | | ✕ | |
| **Consumer Goods Forum** Yn weithredol wrth siapio dadleuon polisi. | | ✕ | ✕ | ✕ | | | ✕ | ✕ | ✕ | | ✕ | ✕ |
| **Ffederasiwn Bwyd a Diod (y DU)** Yn chwarae rôl lobïo frwd yn y DU. | | ✕ | | ✕ | | ✕ | ✕ | ✕ | | ✕ | | ✕ |
| **Industry Council for Packaging and the Environment (INCPEN)** Yn chwarae rôl lobïo frwd yn y DU. | | ✕ | ✕ | | ✕ | | | ✕ | | | ✕ | |
| **Paper Cup a RRG** Yn weithredol wrth siapio dadleuon polisi. Yn eiriol dros atebion seilwaith yn hytrach na mesurau lleihau. | | | ✕ | | | | | | | | | ✕ |

Mae'r cymdeithasau canlynol drwy riant-gwmni pob brand: Cadbury: Mondelēz, Lucozade: Suntory, Stella Artois: ABInBev, Pepsi: PepsiCo.







4. BRANDIAU SY'N TANSEILIO POLISI A DEDDFWRIAETH.

# OEDI, OEDI, OEDI

**Roedd polisïau DRS ac pEPR yn cael eu hystyried o ddifrif am y tro cyntaf yn 2016, ac ar yr adeg honno roedd yr holl brif gymdeithasau (gan gynnwys y Ffederasiynau Bwyd a Diod, Consortiwm Manwerthu Prydain, Industry Council for Packaging and the Environment a British Soft Drinks Association - sydd gyda'i gilydd yn cynrychioli 10 o'r Dwsin Drwg) yn gwrthwynebu'r polisïau'n gryf, gan bwyso am oedi ac yn eiriol dros gynnal y status quo.**

Llwyddodd lobïwyr i ostwng ffioedd pEPR a gohiriwyd treth pecynwaith o £1.7bn[27]. Yn dilyn cyfarfodydd misol gyda lobïwyr, y cafodd Mudiadau Amgylcheddol eu heithrio ohonynt, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r cynllun pEPR yn cael ei ohirio am flwyddyn[27].

**NID YW'R DRS YN WEITHREDOL YN Y DU HYD HEDDIW, AR ÔL WYNEBU OEDI DRO AR ÔL TRO, AC NI FYDD YN CAEL EI GYFLWYNO TAN 2027.**

Ond mae Consortiwm Manwerthu Prydain - sy'n cynnwys Tesco - yn defnyddio ymrwymiad Cymru i gadw gwydr yn eu system fel rheswm dros lobïo am hyd yn oed mwy o oedi[28]. Er gwaethaf y lobïo, mae gan Tesco a Coca-Cola gynrychiolwyr yn eistedd ar fwrdd DMO y DU, i hwyluso DRS yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ac felly, mae angen craffu'n benodol ar eu gweithgareddau i sicrhau nad yw'r cynllun yn cael ei ohirio eto. Fel y dengys hanes blaenorol, gellir torri addewidion y llywodraeth dan unrhyw owns o bwysau gan lobïwyr yn y diwydiant.

Ond gyda phob eiliad yn costio'n ddrud i'r ddaear, ni allwn ni na bywyd gwyllt fforddio unrhyw oedi pellach. Hyd yma, mae effeithiau lobïo parhaus gan y Dwsin Drwg wedi cyfrannu at oedi gyda phob darn o ddeddfwriaeth. O ganlyniad, mae pEPR o leiaf flwyddyn yn hwyrach na'r hyn a drefnwyd, a chafodd DRS yn yr Alban ei ohirio am o leiaf bedair blynedd.

**Amserlen o gerrig milltir allweddol ac oedi o ran DRS a pEPR**

- 2016: Dechrau diwygiadau i becynwaith a datblygu polisi DRS cynnar (Yr Alban yn arwain yn gynnar)
- 2018: Llywodraeth y DU yn cyhoeddi bwriad ar gyfer DRS cenedlaethol
- 2019-2020: Yr Alban yn deddfu ar gyfer DRS ac yn pennu dyddiadau lansio cynnar (oedi yn ddiweddarach)
- 2021: Sefydlodd Deddf yr Amgylchedd sail gyfreithiol ar gyfer pEPR a DRS yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon
- 2023: OEDI! Y DU yn gohirio DRS ymhellach ac yn cadarnhau lansio DRS ledled y DU ym mis Hydref 2027 fel tri chynllun cenedlaethol rhyngweithredol.
- 2024: OEDI! pEPR wedi'i ohirio o 2024 i Hydref 2025. DRS yr Alban wedi'i oedi.
- 2025: LANSIWYD! Taliad pEPR i gynhyrchwyr yn dechrau (Hydref 2025).
- 2026: Cymru'n cael ei heithrio rhag cynnwys gwydr mewn ymgyrch gyntaf o'i bath yn y DU; disgwylir i'r #'DRS hollgynhwysol' ddechrau yn 2027.
- 2027: Disgwylir i DRS y DU gael ei lansio

# PA LYGREDD Y GELLID BOD WEDI'I OSGOI PE BAI DRS AC EPR YN WEITHREDOL?

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o frandiau fel petaent wedi newid eu cân. Ar yr wyneb, maent i gyd bellach yn cytuno'n gyhoeddus ac yn eiriol dros EPR a DRS. Ond mewn gwirionedd, maent yn parhau i fod yn feirniadol ac yn parhau i bwyso am uchelgais wannach gyda dim ond newidiadau graddol ar y gorau.




## SUT BETH YW HYN MEWN RHIFAU...

**80%** BYDDAI 80% O'R PECYNWAITH UNTRO A GANFYDDWYD WEDI CAEL EI GWMPASU GAN PEPR.

**50%** BYDDAI 50% O'R PECYNWAITH UNTRO A GANFUWYD WEDI CAEL EI GWMPASU GAN DRS.

AR DRAWS YR HOLL EITEMAU SY'N LLYGRU A GOFNODWYD GAN WIRFODDOLWYR, GALLAI

**33,781**

O EITEMAU O WASTRAFF SY'N LLYGRU FOD WEDI CAEL EU CWMPASU GAN BOLISÏAU PEPR GWEITHREDOL YN 2025 YN UNIG - SY'N 32%! A GALLAI

**21,094**

O EITEMAU FOD WEDI CAEL EU CWMPASU GAN DRS (20%)

# GWANHAU POLISÏAU

**Gellid cryfhau DRS ac EPR yn sylweddol, drwy symud eu ffocws o reoli gwastraff i lawr y gadwyn i leihau plastig i fyny'r gadwyn. Mae'n ymddangos bod y newid diweddar yn iaith y brandiau i gymeradwyo pEPR, ac i raddau llai, DRS, yn canolbwyntio ar awydd i reoli'r sgwrs ynghylch gweithredu, parhau i eiriol dros reoliadau gwannach a mwy hyblyg, ac osgoi'r newidiadau radical i systemau sy'n ofynnol.**

Er mai nod pEPR yw cymell cynhyrchwyr i ddylunio cynhyrchion mwy cynaliadwy, mae tystiolaeth yn awgrymu, heb fesurau ategol - fel targedau gorfodol ar gyfer cynnwys wedi'i ailgylchu, ffioedd uwch ar gyfer plastig crai, neu waharddiadau llwyr ar becynwaith problemus - nad yw'n cael llawer o effaith ar leihau faint o blastig sy'n cael ei gynhyrchu'n gyffredinol[29].

Yn yr un modd, mae cynlluniau DRS yn effeithiol iawn o ran cynyddu cyfraddau casglu, ond mae eu gallu i sbarduno newid systemig yn cael ei wanhau pan nad yw ffioedd cynhyrchwyr yn cael eu gwahaniaethu gan effaith amgylcheddol, gan ganiatáu i gwmnïau barhau i ddefnyddio plastigau anodd eu hailgylchu heb fawr o gosb ariannol[47].

Mae lobïwyr y diwydiant wedi gwrthwynebu diwygiadau o'r fath dro ar ôl tro, gan eirioli dros atebion sy'n canolbwyntio ar ailgylchu yn hytrach na chyfyngiadau cynhyrchu, er gwaethaf tystiolaeth gref na all ailgylchu ar ei ben ei hun fynd i'r afael â llygredd plastig ar raddfa fawr.

Felly, byddai cryfhau pEPR a DRS yn gofyn am ynysu'r broses o lunio polisïau oddi wrth ddylanwad y diwydiant, cynyddu tryloywder o ran lobïo, a blaenoriaethu mesurau sy'n rhwymo'n gyfreithiol sy'n lleihau'r defnydd o blastig yn y ffynhonnell yn hytrach na dibynnu'n bennaf ar **YMRWYMIADAU** gwirfoddol neu atebion diwedd oes.

### Brandiau mawr ar lwyfan byd-eang

Doedd ymddygiad gwael Dwsin Drwg 2025 ddim wedi'i gyfyngu i'r DU yn unig - maen nhw wedi bod yn chwarae gemau budr mawr yn fyd-eang hefyd. Wrth i lywodraethau geisio negodi Cytuniad Plastigau Byd-eang, cyfle hollbwysig i ddiffodd y tap plastig yn y ffynhonnell a throi'r llanw ar lygredd, gwnaeth y diwydiant o blaid plastig yn siŵr bod eu llais yn cael ei glywed. Ac fe wnaethant ymddangos yn llawn grym.

Yn y trafodaethau diweddaraf, INC5.2 ym mis Awst 2025, bu i'r nifer uchaf erioed o 234 o lobïwyr o blaid plastig, tanwydd ffosil a'r diwydiant cemegol, lethu'r trafodaethau, gan ragori ar niferoedd y gwyddonwyr bedwar i un a gwthio'n ôl yn erbyn capiau cynhyrchu, targedau ailddefnyddio a rheolau rhwymol. Yn eu mysg roedd o leiaf chwe brand Dwsin Drwg*. Pob un yn gyhoeddus yn "cefnogi gweithredu" ond eto'n gweithio'n breifat i'w wanhau.




Surfers Against Sewage yn protestio y tu allan i'r Cenhedloedd Unedig, yn ystod trafodaethau INC.5 2025, gan fynnu: Bod areithiau uchelgeisiol byd-eang llywodraeth y DU yn troi'n weithredoedd cyfreithlon gartref, ac mai'r môr a'r cymunedau - nid elw brandiau budr – **SY'N CAEL BLAENORIAETH.**

# PA GYNGHREIRIAU SYDD Â BRANDIAU BUDR* YN CUDDIO YNDDYNT?

PEPSICO · Coca-Cola · BUSINESS COALITION FOR A GLOBAL PLASTICS TREATY · Nestlé · Mondelēz International

**"TROSI YMRWYMIADAU I LEIHAU LLYGREDD PLASTIG YN WEITHREDU CADARN".**

Yn dilyn INC5, cyhoeddodd y Business Coalition ddatganiad yn ailddatgan ei ymrwymiad i "lefelau cynhyrchu cynaliadwy a chytundeb sy'n seiliedig ar reolau byd-eang ar draws cylch bywyd llawn plastigau"[31]. Er y gallai hyn awgrymu cefnogaeth wirioneddol i reoleiddio plastig yn gryf, nid yw'r ymrwymiadau hyn mor feiddgar ag y maent yn swnio. Yn hytrach, maent wedi'u gwreiddio mewn dull sy'n dibynnu ar ailgylchu gwell ac ar dargedu plastigau "byrhoedlog" gyda "chyfraddau gollwng uchel", yn hytrach na gostyngiadau llwyr mewn plastigau untro[30].

Nestlé · GLOBAL PLASTIC ACTION PARTNERSHIP · Coca-Cola · SUNTORY

**"...CEFNOGI'R GWAITH O DDATBLYGU CYTUNIAD Y CENHEDLOEDD UNEDIG UCHELGEISIOL, EFFEITHIOL SY'N RHWYMO'N GYFREITHIOL GAN ROI TERFYN AR LYGREDD PLASTIG"**

Dangosodd ymchwil fod GAP (ynghyd ag AEPW) yn elfennau allweddol o strategaeth rhagfantoli, a **GYNLLUNIWYD I DANSEILIO** rheoliadau llymach a deiseb am gytuniad gwan sy'n canolbwyntio ar gyfrifoldeb unigol ac 'ailgylchu'. Maent yn honni eu bod yn datblygu economi gylchol ar gyfer plastigau, ond yn hytrach maent yn aml yn **DIOGELU MODELAU BUSNES PRESENNOL** ar ffurf cynaliadwyedd honedig[30].

PEPSICO · ALLIANCE TO END PLASTIC WASTE

**"HYRWYDDO ECONOMI GYLCHOL AR GYFER PLASTIG"**

Gellid dadlau mai rhain yw'r gwaethaf o'r cwbl lot. Mae Alliance to End Plastic Waste (AEPW) yn cynnwys **CYNHYRCHWYR PLASTIG** a **CHWMNÏAU PETROCEMEGOL**, yn bennaf, gan gynnwys ExxonMobil a Dow. Roeddent yn gwrthwynebu capiau cynhyrchu gorfodol yn gryf, mesurau i fyny'r gadwyn gyflenwi a rhwymedigaethau cylch bywyd cryf - sydd i gyd yn **HANFODOL** i gytuniad uchelgeisiol.

*O Archwiliadau Brand ers 2023

# AMSER I BARHAU I WNEUD ELW

**Mae lobïo'r llygrwyr wedi llwyddo i ennill mwy o amser iddyn nhw eu hunain. Amser i barhau i gynhyrchu. Amser i barhau i lygru. Amser i barhau i wneud elw.**

## Arbed arian ar oedi DRS

Mae DRS a pEPR i fod i gydweithio ar yr un pryd. Er i pEPR gael ei lansio o'r diwedd yn 2025, nid yw DRS i fod i fynd yn fyw tan fis Hydref 2027. Cyn belled â bod DRS yn cael ei ohirio, nid yn unig mae plastig yn cael ei adael i lygru'r amgylchedd, ond mae bwlch polisi hefyd - sy'n creu bwlch dros dro cyfleus i lawer o'r Dwsin Drwg...

### Esboniad o'r bwlch polisi a'r bwlch ffioedd:

- Heb DRS ar waith, mae cynwysyddion diodydd cymwys DRS (poteli a chaniau plastig/alwminiwm/dur) yn cyrraedd ffrydiau gwastraff cartrefi ar hyn o bryd - ac felly dylent fod yn ddarostyngedig i ffioedd pEPR.
- Lle dylai ffioedd pEPR ar gynwysyddion diodydd fod yn berthnasol ar hyn o bryd, mae'r llywodraeth wedi dewis eu heithrio rhag ffioedd gwaredu pEPR nes bydd y cynllun DRS yn weithredol.
- O ganlyniad, nid yw brandiau sy'n cynhyrchu llawer iawn o boteli PET a chaniau alwminiwm yn talu unrhyw ffioedd ar y cynhyrchion hyn ar hyn o bryd, sy'n golygu bod llawer o'r Dwsin Drwg yn dal i elwa o lygredd.
- Penderfynodd y llywodraeth greu'r bwlch talu hwn er mwyn 'osgoi codi tâl ddwywaith'. Ond gan fod y rhan fwyaf o boteli plastig a chaniau diod yn rhai untro, rydym yn amau'n fawr y byddai hyn yn broblem. Mae cynwysyddion diodydd untro sy'n cael eu defnyddio heddiw yn fwy tebygol o gyrraedd yr amgylchedd neu dirlenwi, yn hytrach na chael eu hailddefnyddio a'u dal yn derfynol gan DRS yn 2027. Mae'n swnio'n debycach i ddiffyg ewyllys wleidyddol - gyda'r llywodraeth yn gadael i lygrwyr ennill, unwaith eto.

## Pwy sy'n elwa fwyaf?

Fel cynhyrchwyr diodydd mawr, Coca-Cola, Pepsi, Red Bull, Monster a Lucozade sy'n elwa fwyaf o'r bwlch talu yn y polisi, wedi'u heithrio rhag talu ffioedd. Mae gan Tesco, McDonald's a Stella Artois gynnyrch mewn pecynnau cymysg, sy'n golygu eu bod yn elwa o'r bwlch gyda rhai eitemau, a allai fod yn gymwys ar gyfer DRS, ond mae llawer o'u pecynwaith bellach yn atebol o dan pEPR.

## Yn y cyfamser, mae'r elw wedi llifo i mewn.

Tra bod cymunedau'n talu pris am lygredd plastig, mae'r Dwsin Drwg yn dal i wneud elw.

**YN 2024 YN UNIG, FE WNAETH BRANDIAU* YN Y DWSIN DRWG YCHWANEGU £30 BILIWN AT EU HELW.**

* Cafwyd rhai ffigurau gan riant gwmnïau, lle nad oedd data brand unigol ar gael.







**NID YW BRANDIAU SY'N CYNHYRCHU NIFER FAWR O BOTELI PET A CHANIAU ALWMINIWM YN TALU UNRHYW FFIOEDD AR Y CYNHYRCHION HYN AR HYN O BRYD**



# Y DARLUN MAWR

# TON O LYGREDD PLASTIG

**Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y llygrwyr mwyaf - y rhai sydd fwyaf cyfrifol am y pecynwaith untro sy'n parhau i lygru'r amgylchedd yn hydreiddiol - casglodd ein gwirfoddolwyr ddata hefyd ar yr holl wahanol fathau o lygredd a ganfuwyd.**

Rydym wedi ymchwilio i'r data a ddatgelodd rai patrymau diddorol ledled y DU...



## GOGLEDD IWERDDON

3 eitem uchaf Gogledd Iwerddon:

1. NURDLES (301)
2. CAN (DIOD) (275)
3. PACED CREISION / MELYSION (179)

#1 Coca-Cola 147 EITEM

#2 Red Bull 79 EITEM

#3 BOOST 73 EITEM

Ychwanegiadau Dwsin Drwg Gogledd Iwerddon:

#6 WKD (30)
#7 BUDWEISER (30)

DARGANFYDDIAD RHYFEDDAF GOGLEDD IWERDDON...

Peiriant gwerthu bychan

## CYMRU

3 eitem uchaf Cymru:

1. PLASTIG (ARALL) (782)
2. DARNAU PLASTIG (459)
3. PACED CREISION / MELYSION (452)

#1 McDonald's 92 EITEM

#2 Cadbury 90 EITEM

#3 Coca-Cola 89 EITEM

Ychwanegiadau Dwsin Drwg Cymru:

#5 NESTLÉ (48)
#11 BUDWEISER (31)

DARGANFYDDIAD RHYFEDDAF CYMRU...

Ochr tŷ bach Wendy





## YR ALBAN

DARGANFYDDIAD RHYFEDDAF YR ALBAN...

Swm anferthol o ganiau (yn enwedig Irn Bru)

Ychwanegiadau Dwsin Drwg Yr Alban:

#4 DESPERADO (190)
#8 IRN BRU (83)

#1 McDonald's 435 EITEM

#2 Coca-Cola 349 EITEM

#3 Cadbury 284 EITEM

3 eitem uchaf Yr Alban:

1. PLASTIG (ARALL) (1,238)
2. PACED CREISION / MELYSION (582)
3. STYMPIAU SIGARENNAU (550)



## LLOEGR

DARGANFYDDIAD RHYFEDDAF LLOEGR...

Sengl Feinyl Bee Gees

#1 Coca-Cola 2,636 EITEM

#2 McDonald's 2,057 EITEM

#3 Cadbury 1,870 EITEM

Ychwanegiadau Dwsin Drwg Lloegr:

#12 COSTA (566)

3 eitem uchaf Lloegr:

1. STYMPIAU SIGARENNAU (12,460)
2. PACED CREISION / MELYSION (8,487)
3. DARNAU PLASTIG (8,084)



# YR EITEMAU SY'N LLYGRU FWYAF

**CANFU GWIRFODDOLWYR SWM ANHYGOEL 104,341 O EITEMAU YN YSTOD 2025.**

Y 12 eitem fwyaf cyffredin a ddaeth i'r amlwg oedd...







**YN GYFFREDINOL, PLASTIG OEDD Y MATH MWYAF CYFFREDIN O LYGREDD A GANFUWYD, SY'N CYFRIF AM BRON I HANNER YR HOLL LYGREDD A GANFUWYD**





SYLW I LYGREDD

# STYMPIAU SIGARENNAU



**Yn 2025, Stympiau Sigarennau oedd yr eitemau a oedd yn llygru fwyaf o ran nifer, gyda 13,358 o stympiau yn cael eu casglu.**

Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai stympiau sigarennau yw'r darn o wastraff sy'n cael ei waredu amlaf yn fyd-eang o hyd, gyda thriliynau'n cael eu gwaredu'n amhriodol bob blwyddyn. Wedi'i wneud o asetad seliwlos anfioddiraddadwy, sy'n fath o blastig, gall stympiau sigarennau barhau yn yr amgylchedd am ddegawdau. Maen nhw'n gollwng sylweddau gwenwynig i ddyfrffyrdd a phridd, gan achosi difrod amgylcheddol na ellir ei wrthdroi.



## PLASTIC FREE EXMOUTH



**Mae Plastic Free Exmouth yn Gymuned Ddi-Blastig sydd wedi ennill gwobrau yn Nyfnaint, sy'n gweithio'n ddiflino i amddiffyn eu traeth lleol rhag llygredd plastig niweidiol - fel stympiau sigarennau.**

Nid yw'r polisïau presennol yn dal cwmnïau tybaco yn atebol am ganlyniadau amgylcheddol eu cynnyrch, ac mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o effeithiau sbwriel sigarennau yn parhau i fod yn annigonol. Mae SAS yn cefnogi'r galw ar gynhyrchwyr i gymryd cyfrifoldeb am gynnyrch drwy gydol oes gydag ERP cryfach a rheoliadau llymach ynghylch dylunio cynnyrch.

> **"Yn ystod naw mis cyntaf 2025, fe wnaethom gasglu dros 1.2 tunnell o sbwriel wrth lanhau ein traethau ar foreau Sul. Rydyn ni'n dod o hyd i nifer enfawr o stympiau sigarennau. Yn rhan o'n Hymgyrch Stympiau Sigarennau, mae pedwar Bin Stympiau Sigarennau eisoes wedi'u gosod mewn lleoliadau allweddol yn y Dref. Mae hon yn ymgyrch sy'n dal i fynd rhagddi."**
>
> Jill Gathercole, Plastic Free Exmouth



SYLW I LYGREDD

# DARNAU PLASTIG



**Nid yw'n syndod bod darnau plastig wedi ymddangos yn y 3 eitem fwyaf llygredig yn 2025, o ystyried bod plastig wedi bod yn llifo i'r môr a'r amgylchedd ar raddfa enfawr ers degawdau.**

Wrth ddod i gysylltiad ag amgylcheddau garw, fel y môr ac uwchfioled uchel, mae llygredd plastig yn torri'n ddarnau llai a llai yn y pen draw - sydd nid yn unig yn mynd yn fwyfwy anoddach i'w lanhau ond hefyd yn mynd i fwy o lefydd na ddylent, gan greu rhagor o beryglon iechyd difrifol.

### Y DAITH TUAG AT FOD YN FICROBLASTIGAU:




Er bod SAS yn ymgyrchu i atal llygredd plastig yn y ffynhonnell, er mwyn atal rhagor o lygredd plastig rhag pentyrru yn y môr a dadfeilio, rydym hefyd yn galw am dargedau lleihau ar gyfer pelenni plastig crai, monitro microblastigau mewn dyfrffyrdd, triniaeth dŵr gwastraff uwch a safonau dylunio cynnyrch i fynd i'r afael â microblastigau.

**LEDLED Y DU, DAETH EIN CYMUNEDAU O HYD I 16,369 O DDARNAU PLASTIG AC EITEMAU PLASTIG 'ERAILL' YN YSTOD 2025.**

Mae'r broblem yn debygol o fod yn llawer mwy, gan fod microblastigau a nanoblastigau yn rhy fach i'w casglu







SYLW I LYGREDD

# OFFER PYSGOTA



**Ar draethau, yn 2024 a 2025, offer pysgota oedd un o'r categorïau eitemau a oedd yn llygru fwyaf - yn ail yn unig i blastigau eraill (nad oeddent yn ymwneud â physgod).**

Offer pysgota gadawedig, coll neu a daflwyd, a elwir yn gyffredin yn 'ghost gear', yw un o'r mathau mwyaf marwol a pharhaus o lygredd plastig morol. Wedi'i gynllunio i ddal a lladd, mae'r offer hwn yn parhau i ddal pysgod, morloi, morfilod, dolffiniaid, crwbanod ac adar môr ymhell ar ôl iddo gael ei golli, ar yr un pryd â difrodi cynefinoedd morol hanfodol a chyfrannu at halogiad microblastig.

Er bod SAS a'n cymunedau yn chwarae ein rhan yn y gwaith o lanhau'r malurion dinistriol hyn, mae'r broblem amlochrog hon yn gofyn am nifer o atebion sy'n cwmpasu meysydd Diogelu Morol, Polisi Pysgodfeydd, EPR ac olrhain ac ailgylchu deunyddiau.

Rydym yn cefnogi'r galw am reoliadau cenedlaethol a rhyngwladol cryfach, ynghyd â mwy o gefnogaeth i bysgotwyr, i fynd i'r afael â'r mater.

I Kasim Shariff, cynrychiolydd o Newcastle, offer pysgota oedd y darganfyddiad mwyaf cyffredin yn ei ymgyrchoedd glanhau:

**DARGANFUWYD OFFER PYSGOTA AR 59% O'R YMGYRCHOEDD GLANHAU TRAETHAU YN YSTOD 2025***

*Daethpwyd o hyd i offer pysgota mewn 261 o 442 o ddigwyddiadau glanhau traethau lle cyflwynwyd unrhyw ddata am eitemau.

> **"Mae'n hanfodol ein bod yn atal llygredd plastig, nid yn unig i ddiogelu ein fflora a'n ffawna unigryw, ond ein hiechyd ein hunain hefyd. Fel myfyriwr bioleg forol, rydw i wedi gweld â'm llygaid fy hun sut mae plastigau'n dinistrio bywyd gwyllt, a heb weithredu rwy'n ofni mai fy nghymuned leol fydd nesaf."**
>
> Kasim Mahedi Shariff, Cynrychiolydd Rhanbarthol SAS.



SYLW I LYGREDD

# MAE BAGIAU PLASTIG YN ÔL!



**Mae ein data'n dangos bod llygredd o fagiau plastig ar gynnydd eto. Yn 2024 a 2025, roedd bagiau plastig ymhlith y 10 eitem a oedd yn llygru fwyaf a ddarganfuwyd yn yr Alban, ac roeddent hyd yn oed yn #3 yn yr Alban.**

Mae ymchwil gan DEFRA yn awgrymu y gallai archfarchnadoedd fod ar fai, o ystyried bod cadwyni archfarchnadoedd ar-lein yn gyfrifol am 88% o werthiant bagiau plastig untro yn y DU32. 2024 oedd y tro cyntaf i werthiannau gynyddu ers cyflwyno'r tâl o 5c am fagiau yn 2015, gyda gwerthiant yn codi 7%32. Mae'r cynnydd hwn mewn defnydd yn adlewyrchu'n uniongyrchol y cynnydd mewn llygredd a welir yn ein gwaith glanhau, gan ddangos na allwn roi terfyn ar lygredd plastig heb gapiau cynhyrchu gorfodol a gwaharddiadau ar eitemau.

**Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i weithredu:**

**TARGEDAU CYFREITHIOL RWYMOL I DORRI AR GYNHYRCHU PLASTIGAU:** Rhaid i lywodraethau osod targedau sy'n gyfreithiol rwymol i leihau faint o blastig sy'n cael ei gynhyrchu a'i ddefnyddio.

**MYND I'R AFAEL Â'R PLASTIGAU UNTRO SY'N LLYGRU WAETHAF:** Drwy orfodi'r ddeddfwriaeth bresennol ac ehangu gwaharddiadau, rhaid i'r llywodraeth a rheoleiddwyr fynd i'r afael â'r plastigau untro sy'n llygru waethaf ar draethau'r DU.



**2024 OEDD Y TRO CYNTAF I NIFER Y BAGIAU PLASTIG SY'N CAEL EU GWERTHU GYNYDDU ERS CODI TÂL O 5C AM FAGIAU PLASTIG.**





SYLW I LYGREDD

# BIOGYFRWNG



**Mae biogyfrwng yn bodoli yn y rhyngwyneb rhwng dau o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu'r môr ar hyn o bryd: llygredd carthion a phlastig. Maen nhw'n fath bach o blastig sy'n cael ei ddefnyddio yn y broses o drin dŵr gwastraff.**

Ond yn dilyn degawdau o danfuddsoddi cronig gan gwmnïau dŵr, mae methiannau seilwaith yn achosi llygredd torfol ac eang - yn aml gyda miliynau o fiogyfryngau bach yn gollwng i'r amgylchedd. Oherwydd natur eu defnydd, **MAE BIOGYFRYNGAU YN AML YN CARIO SYLWEDDAU NIWEIDIOL, GWENWYNIG** ac o ganlyniad maent yn fygythiad mawr i'r amgylchedd.

Er eu bod yn bresennol mewn gwahanol siapiau a meintiau, o ddisgiau ac olwynion i beledi, y rhai anoddaf i'w glanhau yw bio-leiniau. Amlygodd digwyddiad Categori 1 diweddar (y llygredd mwyaf difrifol) yn Nhraeth Camber y **NIWED TRYCHINEBUS** y gall colli bio-leiniau ei achosi i'r amgylchedd, gan greu risgiau parhaus i ecosystemau morol ac arfordirol.





Ond nid Traeth Camber yw'r unig draeth sy'n dioddef. Mae ein data'n dangos bod gan y llygredd hwn ganlyniadau pellgyrhaeddol; **MAE GOLLYNGIADAU WEDI BOD YN DIGWYDD ERS DEGAWDAU, LEDLED Y DU.**

Mae SAS yn ymgyrchu dros drawsnewid y sector dŵr, a fyddai'n sicrhau bod arian yn llifo i fuddsoddiadau seilwaith yn hytrach na phocedi cyfranddalwyr. Byddwn hefyd yn parhau i bwyso am reoleiddio, tryloywder ac adrodd llymach ynghylch defnyddio a gollyngiadau biogyfrwng, rheoleiddio a diddymu biogyfryngau yn raddol, adferiad amgylcheddol i ddal llygrwyr yn atebol, ac ymchwil a monitro pellach i ddeall maint ac effaith llygredd biogyfryngau.

**OS YW'R DATA'N DWEUD UN PETH WRTHYM, NI ALLWN LANHAU AC AILGYLCHU EIN FFORDD ALLAN O'R BROBLEM HON.** Mae llanw plastig wedi ysgubo ar draws y byd, ac mae'r DU yn dod yn fwyfwy cyfrifol. Rhaid i ni roi terfyn ar frandiau sy'n llygru; rhaid iddyn nhw dalu'r pris. Mae'n bryd troi'r llanw ar lygredd plastig, ac mae hynny'n golygu diffodd y tap yn y ffynhonnell.

# BETH SYDD ANGEN EI NEWID?

# ADDEWIDION BYD-EANG, METHIANT DOMESTIG

**Ar y llwyfan byd-eang, mae Llywodraeth y DU yn sôn yn eofn am fynd i'r afael â llygredd plastig. Ond yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw beth sy'n digwydd gartref.**

Yn y DU, mae bwlch cynyddol rhwng addewidion rhyngwladol a gweithredu domestig. Er bod gweinidogion yn honni eu bod yn cefnogi atebion uchelgeisiol i'r argyfwng plastig, mae'r cynnydd ar lawr gwlad wedi bod yn araf, yn anghyson ac wedi'i ohirio dro ar ôl tro. Mae polisïau allweddol a fyddai'n lleihau llygredd plastig yn y ffynhonnell wedi cael eu gohirio, eu gwanhau neu eu gwthio'n ôl - gan adael i'r brandiau pwerus a lobïwyr y diwydiant ennill.

Pan fydd llywodraethau'n methu â throi geiriau'n weithredoedd, mae cynhyrchu plastig yn parhau heb ei wirio, mae llygredd yn pentyrru yn ein cymunedau, ac mae'r costau'n cael eu trosglwyddo i gynghorau, trethdalwyr ac, yn fwyaf annerbyniol, i'r amgylchedd.

**MAE ARWEINYDDIAETH FYD-EANG YN DECHRAU GARTREF.**






# RHAID I LYWODRAETH Y DU WEITHREDU

## Rhoi'r gorau i ariannu'r broblem blastig

Hyd yn oed wrth iddi sôn am fynd i'r afael â llygredd plastig, mae Llywodraeth y DU wedi cefnogi seilwaith sy'n ymrwymo i gynhyrchu a gwaredu plastig am ddegawdau i ddod:

- £600 miliwn o gyllid cyhoeddus y DU wedi'i gyfeirio at ehangiad petrocemegol INEOS yn Ewrop
- Cymeradwyo dros 40 o losgyddion gwastraff newydd, gan annog llosgi plastig yn hytrach na lleihau
- Rhoi golau gwyrdd i feysydd olew a nwy newydd gyda thrwyddedau presennol - gan fwydo cynhyrchiant plastig

Mae tua 8-10% o'r galw byd-eang am olew eisoes yn mynd i gynhyrchu plastig, ac mae'r gyfran honno'n cynyddu. Mae cymeradwyo prosiectau olew newydd yn fwy na dim ond penderfyniad ynghylch yr hinsawdd - mae'n benderfyniad plastig hefyd. Mae'n bryd i Lywodraeth y DU roi'r gorau i ariannu cynhyrchu a dechrau buddsoddi yn ein dyfodol cylchol sy'n seiliedig ar yr economi.

## Dal y llygrwyr i gyfrif

Ers blynyddoedd, mae llywodraethau wedi dibynnu ar ymrwymiadau corfforaethol gwirfoddol i gyflawni newid. Ond mae ymrwymiadau gwirfoddol, drwy ddyluniad, yn ddewisol. Ac mae'r Dwsin Drwg wedi dangos na fydd gweithredu gwirfoddol yn datrys yr argyfwng llygredd. Heb ymyrraeth frys, y canlyniadau fydd newid graddol ar y gorau a rhwystro cynnydd - gyda llygredd yn pentyrru - ar y gwaethaf.

**YR HYN SYDD EI WIR ANGEN ARNOM YW DEDDFAU CRYF GYDA THARGEDAU Y GELLIR EU GORFODI. MAE'N BRYD I LYWODRAETH Y DU GAMU I'R ADWY, RHOI TERFYN AR Y GWYRDDGALCHU BUDR A SICRHAU NEWID GO IAWN.**

**DYCHWELYD I'R TRAMGWYDDWR**
Sganiwch y cod QR i weithredu yn erbyn brandiau mwyaf y DU sy'n llygru:

## Dim mwy o oedi

Cafodd Cynlluniau Dychwelyd Ernes (DRS) a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) eu haddo am y tro cyntaf bron i ddegawd yn ôl. Ond, flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae eu darpariaeth wedi cael ei gohirio, ei hailgynllunio neu ei gwanhau o ganlyniad i lobïo gan y diwydiant.

Lle mae deddfwriaeth DRS ac pEPR wedi cael eu rhoi ar waith yn briodol, mae llygredd yn gostwng, mae ailgylchu'n gwella, ac mae costau'n symud oddi wrth gymunedau a threthdalwyr. Mae'r polisïau hyn yn gweithio oherwydd eu bod yn orfodol, yn orfodadwy ac wedi'u cynllunio i newid ymddygiad ar raddfa fawr.

Ond er ei bod yn gwybod am y manteision, mae llywodraeth y DU wedi gwrando ar frandiau sy'n llygru yn hytrach na chymunedau ac wedi gadael i'r cynnydd arafu. Mae lleisiau'r diwydiant - llawer yn cynrychioli'r Dwsin Drwg - yn parhau i ddadlau dros ragor o oedi, eithriadau a ffioedd wedi'u gwanhau. Rhaid i lywodraeth y DU roi terfyn ar hyn nawr; mae'n bryd iddi gamu i'r adwy a chyflawni.





# CASGLIAD

**Mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn adrodd stori glir. Nid yw llygredd plastig yn y DU yn cael ei yrru gan ymddygiad defnyddwyr na diffyg ymwybyddiaeth.**

Dyma ganlyniad rhagweladwy system sy'n caniatáu i frandiau mwyaf y byd elwa o becynwaith, plastig untro yn bennaf, gan osgoi cyfrifoldeb am y niwed mae'n ei achosi.

Ers dros ddegawd, mae llywodraethau wedi dibynnu ar ymrwymiadau corfforaethol gwirfoddol i fynd i'r afael â llygredd plastig. Mae'r ymrwymiadau hyn wedi methu. Mae'r un brandiau mawr unwaith eto wedi dominyddu prif safleoedd llygru y Dwsin Drwg, mae cynhyrchu plastig wedi parhau i gynyddu, ac mae polisïau hanfodol wedi cael eu gohirio neu eu gwanhau o ganlyniad i lobïo gan y diwydiant.

- ➡ **MAE'R ATEBION YN BODOLI.**
- ➡ **MAE'R DYSTIOLAETH YN GLIR..**
- ➡ **NID YW'R ARGYFWNG PLASTIG YN ANOCHEL; DEWIS GWLEIDYDDOL YDYW.**

Yr hyn sydd ei angen nawr yw dewrder gwleidyddol i sefyll o'r diwedd yn erbyn y llygrwyr a gweithredu er budd y cyhoedd, gan roi'r môr a chymunedau'n gyntaf.





# AM BETH RYDYN NI'N GALW

**Mae Surfers Against Sewage yn galw am newid ar frys o addewidion gwirfoddol i gamau gweithredu rhwymol sy'n cyfateb i faint yr argyfwng. Rydym yn galw ar Lywodraethau ledled y DU i weithredu ar frys, gan weithredu:**

### TARGEDAU CYFREITHIOL RWYMOL I DORRI AR GYNHYRCHU PLASTIGAU

Rhaid i lywodraethau osod targedau sy'n gyfreithiol rwymol i leihau faint o blastig sy'n cael ei **GYNHYRCHU** a'i **DDEFNYDDIO**.

### MYND I'R AFAEL Â'R PLASTIGAU UNTRO SY'N LLYGRU WAETHAF

Drwy orfodi'r ddeddfwriaeth bresennol ac ehangu gwaharddiadau, rhaid i'r llywodraeth a rheoleiddwyr fynd i'r afael â'r plastigau untro sy'n llygru waethaf ar draethau'r DU.

### CREU ECONOMI GYLCHOL SY'N ARWAIN Y BYD

Rhaid i lywodraethau ledled y DU weithio gyda'i gilydd i greu economi gylchol sy'n arwain y byd ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys pasio targedau ailddefnyddio cyffredinol sy'n rhwymo'n gyfreithiol a rhoi Cynlluniau Dychwelyd Ernes a Chynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar waith sy'n dylunio dileu gwastraff, yn dal llygrwyr i gyfrif ac yn galluogi ailddefnyddio ac ail-lenwi.

### GWAHARDDIAD AR GEMEGAU GWENWYNIG

Rhaid i lywodraethau gyflwyno mesurau i wahardd cemegau gwenwynig ar draws cylch bywyd plastigau (cadwyn gyflenwi) gan gynnwys **YCHWANEGION GWENWYNIG, PFAS, A SYLWEDDAU SY'N TARFU AR ENDOCRIN** sy'n bygwth iechyd pobl a bywyd morol.

# GWEITHREDU:

### RHANNU:

Rhannwch ganfyddiadau'r adroddiad â ffrindiau a'r cyfryngau, gan ddefnyddio ein pecyn cymorth cyfryngau cymdeithasol

### CYWILYDD:

Rhowch wybod i'r brandiau ein bod ni'n mynd ar eu holau, a'i bod hi'n bryd rhoi'r blaned o flaen elw.

### GLANHAU:

Cymerwch ran mewn ymgyrch Glanhau Miliwn o Filltiroedd a'n helpu i barhau i dyfu ein sylfaen dystiolaeth.

### YMUNWCH:

Ymunwch â'r mudiad i helpu i ryddhau eich cymuned rhag plastig untro.







# DIOLCH!

**Ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl heb i bob gwirfoddolwr ymroddgar gymryd rhan yn yr ymgyrch Glanhau Miliwn o Filltiroedd y llynedd: gan dorchi eich llewys, tynnu plastig niweidiol o'r amgylchedd a chofnodi data hanfodol i ddal llygrwyr yn atebol.**

Yn 2025 gwelwyd y nifer fwyaf erioed o ddata'n cael eu cyflwyno, o Lands' End i John O' Groats, Ballycastle i Blyth, a phob man yn y canol. Roedd pob un darn o blastig a gafodd ei godi, a phob brand a nodwyd, yn helpu i gyflwyno ein hachos mor gryf â phosibl - gan greu tystiolaeth ddiymwad i sbarduno ein gofynion a'n hymgyrch.

Mae'r data a gasglwyd yn adlewyrchu mudiad cynyddol cymunedau ledled y DU sy'n sefyll yn erbyn plastig a'r llygrwyr, gydag ymrwymiad diwyro i ddiogelu'r môr, byd natur a'r holl fannau gwyllt eraill rydyn ni'n eu caru ac yn dibynnu arnyn nhw.

Felly **DIOLCH YN FAWR IAWN** i bawb a helpodd. Pŵer pobl fydd yn troi'r llanw ar lygredd plastig, am byth.

Er mwyn y Môr,
Tîm Surfers Against Sewage

# ATODIADAU

## 1. GEIRFA

**Economi Cylchol**
System economaidd sydd wedi'i dylunio i leihau gwastraff ac echdynnu adnoddau drwy bwysleisio ailddefnyddio, ail-lenwi, atgyweirio, ailddylunio ac ailgylchu.

**Dyluniwyd i ailgylchu**
Mae technoleg yn bodoli (neu rhagwelir y bydd yn bodoli yn fuan iawn) a fyddai'n caniatáu i becynwaith gael ei ailgylchu.

**I lawr y gadwyn**
Gweithgareddau sy'n digwydd ar ôl defnyddio cynnyrch, gan gynnwys prosesau casglu, didoli, ailgylchu, gwaredu neu adfer gwastraff.

**DRS (Cynllun Dychwelyd Ernes)**
Mae defnyddwyr (boed yn fusnesau neu'n unigolion) yn talu blaendal ar becynwaith, cynwysyddion diodydd fel arfer, sydd wedyn yn cael ei ad-dalu pan fyddant yn dychwelyd y pecynwaith i'w ailgylchu (neu'n ddelfrydol yn ei ailddefnyddio, er nad yw hynny yng nghynllun y DU).

**EPR**
Mae EPR yn ddull polisi sy'n gwneud cynhyrchwyr yn gyfrifol yn ariannol am gostau rheoli gwastraff llawn y cynhyrchion y maent yn eu rhoi ar y farchnad. Mae'n cael ei ddefnyddio'n rhyngwladol ar draws sawl math o gynnyrch, fel tecstilau a phecynwaith.

**Defnydd crai**
Beth mae cynhyrchion plastig yn cael eu gwneud ohono. Mewn plastigau crai, pelenni plastig yw'r rhain sydd wedi'u gwneud o weddillion tanwydd ffosil, neu mewn rhai achosion arbenigol olewau bio-seiliedig. Ar gyfer plastig wedi'i ailgylchu, maent yn ddarnau plastig (sydd weithiau'n cael eu hailffurfio'n beledi) sy'n dod o eitemau plastig wedi'u hadfer, eu didoli, eu glanhau a'u prosesu.

**GPT (Cytuniad Plastigau Byd-eang)**
Cytundeb rhyngwladol cyfreithiol rwymol sy'n cael ei negodi gan y Cenhedloedd Unedig i roi terfyn ar lygredd plastig. Ei fwriad yw mynd i'r afael â chylch bywyd llawn plastigau, gan gynnwys cyfyngu ar gynhyrchu plastig, gwella dyluniad cynnyrch, a chryfhau systemau rheoli gwastraff.

**OPRL (Label Ailgylchu Ar y Pecyn)**
Cynllun gwirfoddol yn y DU i gael cyfarwyddiadau gwaredu unffurf.

**PCR (Ailgylchwyd ar ôl y Defnyddiwr)**
Deunyddiau cynaliadwy sy'n cael eu gweithgynhyrchu o wastraff defnyddwyr sy'n cael ei waredu, sydd wedi cael ei ddefnyddio a'i ailgylchu - fel poteli, tybiau a chynwysyddion sy'n cael eu casglu o ffrydiau ailgylchu domestig neu ddiwydiannol.

**EPR Pecynwaith (pEPR)**
Yn y DU, cyfeirir at fersiwn pecynwaith EPR fel pEPR. Mae hwn yn gynllun penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr pecynwaith dalu costau casglu, didoli ac ailgylchu gwastraff pecynwaith. O dan ddiwygiadau diweddar, mae'r costau hyn wedi'u "modiwleiddio" - sy'n golygu bod cynhyrchwyr yn talu ffioedd uwch am becynwaith sy'n anodd ei ailgylchu, a ffioedd is am becynwaith sy'n haws ei ailgylchu.

**Pecynwaith Ailgylchadwy**
Mae technoleg yn cael ei rhoi ar waith yn eang sy'n gallu ailgylchu'r pecynwaith.

**Deunydd eildro**
Cynnyrch terfynol proses ailgylchu, plastig sy'n barod i'w droi'n gynnyrch newydd.

**RRC (gellir ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio)**
Metrig EMF ar gyfer faint o'u pecynwaith sy'n cyd-fynd ag un o'r tri maen prawf hyn. Bydd cwmnïau'n cuddio eu targedau ailddefnyddio drwy olrhain y metrig grŵp hwn yn unig.

**I fyny'r gadwyn**
Gweithgareddau a phrosesau sy'n digwydd yn gynharach yng nghylch oes cynnyrch, fel echdynnu deunyddiau crai, cynhyrchu deunyddiau, a dylunio pecynwaith, cyn i'r cynnyrch gyrraedd defnyddwyr.

**Plastigau Crai**
Plastig wedi'i gynhyrchu o danwydd ffosil newydd ei echdynnu, yn hytrach na deunyddiau wedi'u hailgylchu. Plastigau Crai sy'n gyrru'r rhan fwyaf o allyriadau carbon ac ehangiad y diwydiant.





## 2. CYFEIRIADAU


1 Greenpeace. (2024, Ebrill 16). The UK's Largest Plastic Waste Survey Reveals 1.7 Billion Pieces of Plastic Packaging Still Being Thrown Away by Households Weekly. Ar gael yn: https://www.greenpeace.org.uk/news/the-uks-largest-plastic-waste-survey-reveals-1-7-billion-pieces-of-plastic-packaging-still-being-thrown-away-by-households-weekly

2 Geneva Environment Network. (2025, Awst 16). Plastic Production and Industry | Plastics and the Environment Series. Ar gael yn: https://www.genevaenvironmentnetwork.org/resources/updates/plastic-production-and-industry/

3 International Energy Agency (IEA). (2018). The Future of Petrochemicals. Ar gael yn: https://www.iea.org/reports/the-future-of-petrochemicals

4 City to Sea. (2026). Complaint made over "misleading" Coca-Cola advert. Ar gael yn: https://www.citytosea.org.uk/complaint-made-over-misleading-coca-cola-advert/

5 The Cool Down. (2024). Coca-Cola faces backlash for U-turning on sustainability pledge. Ar gael yn: https://www.thecooldown.com/green-business/coca-cola-sustainability-pledges-website-backlash/

6 Ellen MacArthur Foundation. (2025). Global Commitment 2025 Report. Ar gael yn: https://content.ellenmacarthurfoundation.org/m/21c4a4ffd7e2e9b4/original/Global-Commitment-2025-Report-M-10-25.pdf

7 The Guardian. (2024, Rhagfyr 3). Coca-Cola accused of dropping reusable packaging target. Ar gael yn: https://www.theguardian.com/environment/2024/dec/03/coca-cola-accused-dropping-reusable-packaging-target

8 McDonald's Corporation. (2026). Packaging, Toys and Waste. Ar gael yn: https://corporate.mcdonalds.com/corpmcd/our-purpose-and-impact/our-planet/packaging-toys-and-waste.html

9 The Good Men Project. (2026). McDonald's leads lobbying offensive against laws to reduce packaging waste in Europe. Ar gael yn: https://goodmenproject.com/featured-content/mcdonalds-leads-lobbying-offensive-against-laws-to-reduce-packaging-waste-in-europe/

10 McDonald's UK. (2026). Closing the loop on waste. Ar gael yn: https://www.mcdonalds.com/gb/en-gb/our-plan-for-change/great-restaurants/closing-the-loop-on-waste.html

11 McDonald's Corporation. (2024). McDonald's Purpose & Impact Progress Report 2024–2025. Ar gael yn: https://corporate.mcdonalds.com/content/dam/sites/corp/nfl/pdf/McDonalds_PurposeImpact_ProgressReport_2024_2025.pdf

12 Forest Stewardship Council (FSC). (2026). Controlled Wood. Ar gael yn: https://fsc.org/en/cw

13 DeSmog. (2023, May 8). McDonald's leads lobbying offensive against laws to reduce packaging waste in Europe. Ar gael yn: https://www.desmog.com/2023/05/08/mcdonalds-leads-lobbying-offensive-against-laws-to-reduce-packaging-waste-in-europe/

14 Cadbury. (2026). Sustainability and Impact. Ar gael yn: https://www.cadbury.co.uk/about/impact/sustainability/

15 Mondelez International. (2024). Snacking Made Right ESG Report 2024. Ar gael yn: https://www.mondelezinternational.com/assets/Snacking-Made-Right/SMR-Report/2024/2024-MDLZ-Snacking-Made-Right-ESG-Report.pdf

16 Ellen MacArthur Foundation. (2025). Global Commitment Data – Mondelez International. Ar gael yn: https://gc-data.emf.org/2025/detail-25/?cid=mondelez-international

17 Statista. (2026). Tesco PLC – Statistics & Facts. Ar gael yn: https://www.statista.com/topics/3807/tesco-plc/#editorsPicks

18 Tesco PLC. (2026). Packaging and Plastics. Ar gael yn: https://www.tescoplc.com/sustainability/planet/packaging-and-plastics

19 Tesco PLC. (2025). Tesco Sustainability Report 2025. Ar gael yn: https://www.tescoplc.com/media/wvkj1yic/tesco-sustainability-report-2025.pdf

20 Environmental Investigation Agency (EIA). (2021). The Hard Truth About Soft Plastic. Ar gael yn: https://eia-international.org/report/the-hard-truth-about-soft-plastic/

21 Retail Economics & DS Smith. (2023). The Material Change Index. Ar gael yn: https://www.retaileconomics.co.uk/retail-insights/thought-leadership-reports/the-material-change-index-ds-smith-retail-economics

22 Greenpeace UK. (2026). Unpacked: Supermarket Plastic Report. Ar gael yn: https://www.greenpeace.org.uk/resources/unpacked-supermarket-plastic-report/

23 NewClimate Institute. (2024, Awst). Corporate Climate Responsibility Monitor 2024. Ar gael yn: https://newclimate.org/sites/default/files/2024-08/NewClimate_CCRM2024.pdf

24 Ellen MacArthur Foundation. (2021). The Global Commitment: Five Years In. Ar gael yn: https://content.ellenmacarthurfoundation.org/m/11b390e442ce36ba/original/The-Global-Commitment-Five-Years-In.pdf

25 Senedd Y DU. (2021). Written Evidence submitted to Parliamentary Committee Inquiry. Ar gael yn: https://committees.parliament.uk/writtenevidence/38832/pdf/

26 Resource. (2024). UK recycling infrastructure unprepared for flexible plastics by 2027. Ar gael yn: https://resource.co/article/uk-recycling-infrastructure-unprepared-flexible-plastics-2027

27 The Guardian. (2024, Hydref 5). British food firms lobbied to defer £1.7bn plastic packaging tax, documents reveal. Ar gael yn: https://www.theguardian.com/business/2024/oct/05/british-food-firms-lobbied-to-defer-17bn-plastic-packaging-tax-documents-reveal

28 Materials Recycling World (MRW). (2025, Ionawr 20). Retailers' body warns delayed 2027 DRS launch still too soon for industry. Ar gael yn: https://www.mrw.co.uk/news/retailers-body-warns-delayed-2027-drs-launch-still-too-soon-for-industry-20-01-2025/

29 ScienceDirect. (2022). Plastic waste management and sustainability transitions (journal article). Ar gael yn: https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S0956053X22004573

30 Queen's University Belfast. (2022). Plastic partnerships: How corporations are hedging against uncertainty. Ar gael yn: https://pure.qub.ac.uk/en/publications/plastic-partnerships-how-corporations-are-hedging-against-the-un-/

31 Business for Plastics Treaty. (2024). Statement on the INC-5 outcome. Ar gael yn: https://www.businessforplasticstreaty.org/latest/our-statement-on-the-inc-5-outcome

32 Supply Chain Digital. (2024). How supermarkets can cut down on single-use plastics. Ar gael yn: https://supplychaindigital.com/news/how-supermarkets-can-cut-down-on-single-use-plastics

33 Carbon Credits. (2024). The bottled truth: Coca-Cola's new 2035 carbon emissions environmental goals face sustainability backlash. Ar gael yn: https://carboncredits.com/the-bottled-truth-coca-colas-new-2035-carbon-emissions-environmental-goals-face-sustainability-backlash/

34 The Coca-Cola Company. (2024). 2024 Environmental Update. Ar gael yn: https://www.coca-colacompany.com/content/dam/company/us/en/reports/2024-environmental-update/2024-environmental-update.pdf

35 PR News Blog. (2024). Coca-Cola quietly abandons reusable packaging target amid plastic crisis. Ar gael yn: https://www.prnewsblog.com/environment-climate/22454/coca-cola-quietly-abandons-reusable-packaging-target-amid-plastic-crisis/

36 Walkers. (2026). Recycle with Walkers. Ar gael yn: https://www.nowalkersnogame.com/en-gb/recycle

37 Smurfit Kappa. (2026). Walkers crisp box packaging – success story. Ar gael yn: https://www.smurfitkappa.com/uk/innovation/success-stories/walkers-crisp-box-packaging

38 Monster Energy. (2026). Sustainability. Ar gael yn: https://www.monsterenergy.com/en-us/sustainability/

39 Suntory Beverage & Food Europe. (2026). Planet – Sustainability. Ar gael yn: https://suntorybeverageandfood-europe.com/en-GB/gbi/sustainability/planet/

40 Plastics Today. (2024). PepsiCo abandons plastic reduction targets amid industry shift. Ar gael yn: https://www.plasticstoday.com/packaging/pepsico-abandons-plastic-reduction-targets-amid-industry-shift

41 Packaging Dive. (2024). PepsiCo revamps sustainability goals for packaging and plastic emissions. Ar gael yn: https://www.packagingdive.com/news/pepsico-sustainability-goal-revamp-packaging-plastic-emissions/748822/

42 Ellen MacArthur Foundation. (2024). Global Commitment Data – PepsiCo. Ar gael yn: https://gc-data.emf.org/2024/detail/?cid=pepsico#header

43 AB InBev. (2026). Circular Packaging. Ar gael yn: https://www.ab-inbev.com/circular-packaging

44 AB InBev. (2026). Sustainability and circular packaging report resource. Ar gael yn: https://cdn.builder.io/o/assets%2F2e5c7fb020194c1a8ee80f743d0b923e%2Ffa283055d37b49a2814094325ca5abf1?alt=media&token=35f21c06-7ae0-4c9c-b6bf-85d79a306575&apiKey=2e5c7fb020194c1a8ee80f743d0b923e

45 Haribo. (2026). Corporate Responsibility. Ar gael yn: https://www.haribo.com/en-gb/about-us/corporate-responsibility

46 Mars Incorporated. (2026). Sustainable Packaging. Ar gael yn: https://www.mars.com/sustainability-plan/healthy-planet/sustainable-packaging

47 Department for Environment, Food & Rural Affairs (Defra). (2019). Consultation on Introducing a Deposit Return Scheme in England, Wales and Northern Ireland: Summary of Responses. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5d5e6050ed915d08d586a2f7/drs-consult-sum-resp1.pdf




Surfers Against Sewage
Unit 2, Wheal Kitty Workshops, St Agnes, TR5 0RD

E-bost: info@sas.org.uk | Ffôn: 01872 553 001 | www.sas.org.uk

facebook.com/SurfersAgainstSewage instagram.com/SurfersAgainstSewage x.com/sascampaigns

RHIF COFRESTRU'R CWMNI: 02920815 | RHIF COFRESTRU'R ELUSEN: 1145877